Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arfer effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion

Tachwedd 2012

Iechyd ar Waith Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau annibynnol arbenigol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

# Rhagair

Mae gormod o blant yng Nghymru yn parhau i fyw mewn tlodi[1] ac mae Strategaeth newydd Tlodi Plant Cymru[2] yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r cyswllt rhwng anfantais a thangyflawni addysgol yn parhau'n rhy gryf. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr o deuluoedd tlotach yn cyflawni cystal â'u cyfoedion. Mae gan ysgolion rôl allweddol i'w chwarae, ac nid yw gwasanaethu pob dysgwr yn gyfartal yn ddigon – mae angen canolbwyntio'n fwy penodol ar y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu magu mewn tlodi.

Yn fy Adroddiad Blynyddol diwethaf, tynnais sylw at rai o'r heriau sy'n parhau i wynebu ysgolion wrth wella cyflawniad y rhai sydd dan anfantais. Nid oes un esboniad penodol ynghylch pam nad yw dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn perfformio cystal â'u cyfoedion, ac nid oes unrhyw ateb hawdd. Mae ysgolion sy'n mynd i'r afael ag effaith anfantais yn defnyddio ystod o ddulliau ac ymyriadau i fynd i'r afael â set gymhleth o broblemau. Yn yr Adroddiad Blynyddol, amlygais hefyd yr hyn y mae rhai ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda. Maent yn dadansoddi data ar gynnydd disgyblion, maent yn cynnig cwricwlwm teilwredig, ac mae staff a disgyblion yn mentora.

Mae'r adroddiad hwn ar arfer dda yn disgrifio nodweddion arfer dda ac yn eu dangos mewn astudiaethau achos o ysgolion effeithiol mewn ardaloedd lle mae llawer o anfantais economaidd gymdeithasol.

Yr adroddiad hwn yw'r ail mewn cyfres a gynhyrchwyd i ymateb i gylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2011-2012. Mae'r adroddiadau hyn yn edrych ar y modd y mae ysgolion yng Nghymru yn mynd i'r afael â thlodi ac anfantais ymhlith plant i wella cyflawniad a lles dysgwyr. Canolbwyntiodd yr adroddiad cyntaf[3] ar effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth ac ysgolion bro. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad a'r astudiaethau achos arfer dda hyn yn helpu ymarferwyr i:

→ godi safonau cyflawniad disgyblion trwy ddefnyddio astudiaethau achos arfer orau i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ac anfantais;

→ nodi a dathlu eu cryfderau wrth ddarparu ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais;

→ nodi meysydd y mae lle i wella ynddynt;

→ gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut i wella; a

→ datblygu arfer dda.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn a'r astudiaethau achos yn sbarduno trafodaeth ac yn cefnogi eich cynllunio i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais ledled Cymru.



**Ann Keane**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

1 Mae ymchwil o Sefydliad Joseph Rowntree yn datgan bod 200,000 o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru (Monitro Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru, Sefydliad Joseph Rowntree, 2011)

2 Strategaeth Tlodi Plant Cymru (Dogfen Wybodaeth, Rhif: 095/2011)

3 Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: gweithio gyda'r gymuned a phartneriaid eraill, Estyn 2011

# Cynnwys

## Beth ydym ni'n ei wybod am ddysgwyr dan anfantais? 1

Mae'r adran hon yn cyflwyno negeseuon allweddol am effaith anfantais ar sail data ac ymchwil.

## Beth mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda? 2

Yn yr adran hon, caiff deg nodwedd ysgolion effeithiol isod eu harchwilio'n fanwl a'u hegluro gydag astudiaethau achos.

1 Defnyddio dull ysgol gyfan, strategol i fynd i'r afael ag anfantais 3
2 Defnyddio data i olrhain cynnydd dysgwyr dan anfantais 4
3 Canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a dysgu dysgwyr dan anfantais 9
4 Datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais 14
5 Gwella presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad dysgwyr dan anfantais 17
6 Teilwra'r cwricwlwm yn unol ag anghenion dysgwyr dan anfantais 22
7 Darparu profiadau cyfoethog ac allgyrsiol 23
8 Gwrando ar ddysgwyr dan anfantais a rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol 29
9 Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dysgwyr dan anfantais – maent yn cyfathrebu ac yn gweithio wyneb yn wyneb â'u plant i oresgyn rhwystrau rhag dysgu 34
10 Datblygu arbenigedd staff i fodloni anghenion dysgwyr dan anfantais 40

## Atodiad 42

1 Sail y dystiolaeth 43
2 Yr ysgolion 43
3 Data 44

## Cyfeiriadau 48

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg 49

1

# Beth ydym ni'n ei wybod am ddysgwyr dan anfantais?

**Mae Monitor Lles Cymru[4] yn adrodd bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn tlodi yn agored i niwed mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Maent mwy o berygl y bydd eu cyrhaeddiad addysgol yn wael, mae eu canlyniadau iechyd yn fwy tebygol o fod yn waelach, a'u medrau a'u dyheadau'n is. Mae hefyd yn fwy tebygol y byddant yn cael cyflog isel, yn ddi-waith ac yn dibynnu ar les pan fyddant yn oedolion.**

**Mae astudiaethau ar dlodi plant yn dweud wrthym:**

→ fod y bwlch rhwng plant o gefndiroedd cyfoethocach a thlotach yn ehangu'n gyflym iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae'n fwy tebygol nad oes uchelgais a hunan-barch gan blant dan anfantais mewn ysgolion cynradd, a bod ganddynt broblemau ymddygiad a thrafferth yn uniaethu â'u cyfoedion[5];

→ bod bechgyn mor ifanc â naw oed mewn ysgolion dan anfantais yn cael eu dadrithio â'r ysgol ac yn dechrau ymddieithrio; ac

→ mai cyfyngedig yw'r cyfle a gaiff plant mewn ysgolion difreintiedig i ymgymryd â gweithgareddau cerddoriaeth, celf a gweithgareddau'r tu allan i'r ysgol y mae plant mewn ysgolion breintiedig fel arfer yn eu cymryd yn ganiataol.

**Gwyddom hefyd fod::**

→ dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o gael cofnod presenoldeb gwael;

→ dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn aml yn gweld y cwricwlwm yn amherthnasol;

→ dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o dderbyn diwylliant yr ysgol;

→ dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol;

→ rhieni dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan yn addysg eu plant;

→ canfyddiad a phrofiad rhieni dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig o ysgol ac addysg yn fwy tebygol o fod yn negyddol;

→ dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn llai iach;

→ dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant;

→ dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o gael plentyn yn eu harddegau; a

→ bod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, yn achos bechgyn gwyn dosbarth gweithiol, yn llai tebygol nag unrhyw grŵp arall o gyflawni eu potensial[6].

**Mae ymchwil hefyd yn dweud wrthym fod dysgwyr dan anfantais yn fwy tebygol o wneud yn dda mewn TGAU os yw'r unigolyn ifanc:**

→ yn credu yn ei (g)allu ei hun yn yr ysgol;

→ yn credu bod digwyddiadau'n deillio'n bennaf o'i (h)ymddygiad a'i (g)weithredoedd ei hun;

→ yn gweld yr ysgol yn fuddiol;

→ yn credu ei bod yn debygol y bydd yn gwneud cais i addysg uwch, ac yn cael lle;

→ yn osgoi ymddygiad peryglus fel ysmygu'n rheolaidd, defnyddio canabis, ymddygiad gwrthgymdeithasol, triwantiaeth, gwahardd dros dro a gwahardd; ac

→ nid yw'n cael ei fwlio/bwlio[7].

4 Monitor Lles Llywodraeth Cymru 2011

5 The impact of poverty on young children's experience of school JRF, Goretti Horgan, Prifysgol Ulster 2007

6 Astudiaethau Sefydliad Joseph Rowntree 2006-2010

7 The importance of attitudes and behaviour for poorer children's educational attainment, golygwyd gan Alissa Goodman, Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, a Paul Gregg, CMPO, Prifysgol Bryste JRF 2010

# Beth mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn ei wneud yn dda?



**Mae strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru yn nodi'r weledigaeth a'r amcanion strategol ar gyfer lleihau tlodi plant. Fodd bynnag, nid oes rhaglen genedlaethol i ysgolion ei dilyn ar gyfer mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi ac anfantais. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr sydd dan anfantais yn sgil tlodi yn gwneud cystal â'u cyfoedion mwy breintiedig. Mae rhai ysgolion mewn amgylchiadau heriol yn mynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn effeithiol ac yn gwella safonau a lles dysgwyr dan anfantais. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio ystod o strategaethau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fodloni anghenion nodweddiadol dysgwyr dan anfantais.**

**Mae ysgolion mewn amgylchiadau heriol sy'n gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn gwneud yr hyn y mae pob ysgol lwyddiannus yn ei wneud i sicrhau cyflawniad dysgwyr. Yn ychwanegol, maent hefyd yn creu ethos hynod gadarnhaol sy'n galluogi dysgwyr dan anfantais i gyflawni'n dda. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio strategaethau'n benodol i oresgyn y ffactorau sy'n rhoi dysgwyr dan anfantais. Mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol:**

1 yn defnyddio dull strategol, ysgol gyfan i fynd i'r afael ag anfantais – mae ganddynt ddull strwythuredig, cydlynus a ffocysedig o wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais;

2 yn defnyddio data i olrhain cynnydd dysgwyr dan anfantais – maent yn casglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau ac yn ei defnyddio i ddadansoddi cynnydd grwpiau o ddysgwyr;

3 yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a dysgu dysgwyr dan anfantais;

4 yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr – maent yn deall y berthynas rhwng lles a safonau ac yn aml yn ailstrwythuro eu system gofal bugeiliol i ddelio'n fwy uniongyrchol ag anghenion penodol dysgwyr dan anfantais;

5 yn gwella presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt gosbau addas, ond yn gweld bod y systemau gwobrwyo yn gweithio'n arbennig o dda;

6 yn teilwra'r cwricwlwm yn unol ag anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt systemau mentora sy'n arwain dysgwyr trwy eu rhaglenni astudio ac yn eu helpu i gynllunio eu llwybrau dysgu eu hunain;

7 yn gwneud ymdrechion da i ddarparu profiadau cyfoethog y mae dysgwyr mwy breintiedig yn eu cymryd yn ganiataol – maent yn cynnig dewislen amrywiol o glybiau, gweithgareddau a gwibdeithiau diwylliannol ac addysgol;

8 yn gwrando ar ddysgwyr dan anfantais ac yn cynnig cyfleoedd iddynt gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol – maent yn casglu barn dysgwyr am addysgu a dysgu, yn rhoi rôl allweddol i ddysgwyr yn natblygiad yr ysgol, ac yn cynnwys dysgwyr yn uniongyrchol i wella safonau;

9 yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dysgwyr dan anfantais – maent yn cyfathrebu ac yn gweithio wyneb yn wyneb i'w helpu nhw a'u plant i oresgyn rhwystrau rhag dysgu; ac

10 yn datblygu arbenigedd staff i fodloni anghenion dysgwyr dan anfantais – mae ganddynt ddiwylliant o rannu arfer orau, rhoi cyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd, ac mae ganddynt dargedau rheoli perfformiad sy'n gysylltiedig â gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.

**Mae gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru rôl allweddol o ran cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu harfer yn y 10 ardal allweddol hyn. Caiff pob un o'r 10 elfen arfer dda hyn eu harchwilio'n fanylach yn yr adroddiad hwn. Cânt eu hegluro gydag astudiaethau achos, sy'n helpu i weld pa mor effeithiol y mae ysgolion yn gwella safonau a lles dysgwyr dan anfantais.**

# 1 Defnyddio dull ysgol gyfan, strategol i fynd i'r afael ag anfantais

Yn 2011, gwelwyd bod ysgolion sy'n gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y dysgwyr hyn a'r rhwystrau posibl rhag eu cynnydd mewn dysgu. Gwelsom fod llawer o benaethiaid yn credu bod mynd i'r afael ag anfantais ymhlyg yn eu cynllunio. Fodd bynnag, mae ysgolion sy'n gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn llwyddiannus yn defnyddio dull strategol a systematig o fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi ac anfantais. Mae'r dull hwn yn cynnwys cynllun eglur, gyda thargedau ffocysedig a meintiol ar gyfer eu cyflawni, a chynigion gweithredol manwl.

Mae ysgolion llwyddiannus yn rhoi pwyslais ar wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn eu cynllunio strategol. Cyfeirir yn gyson at fynd i'r afael â thlodi ac anfantais yn nogfennau polisi'r ysgol. Mae ganddynt dargedau penodol a mesuradwy i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Mae gan ysgolion ddull strwythuredig, cydlynol a ffocysedig o wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn hyn o beth.

Mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn defnyddio ystod o strategaethau sy'n benodol addas ar gyfer eu cyd-destun unigol. Maent yn cyflwyno prosesau sy'n cael eu targedu at anghenion penodol y dysgwyr dan anfantais yn eu hysgolion. Cryfder eu cynllunio yw'r ffaith fod y strategaethau'n cysylltu â'i gilydd ac yn cynnig dull cyfannol, ysgol gyfan o fynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n effeithio ar ddysgwyr dan anfantais.

Mae gan yr ysgolion hyn weledigaeth glir ac maent yn darparu synnwyr o gyfeiriad sy'n golygu nad oes gan unrhyw un amheuaeth ynglŷn â'r hyn y mae angen i'r ysgol ei gyflawni. Fel arfer, mae gan yr ysgolion arwyddair neu ddatganiad cenhadaeth y maent yn ei ddefnyddio i uno staff, dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr mewn perthynas â'r ysgol sy'n mynd i'r afael ag anfantais yn gadarnhaol.

Mewn llawer o achosion, mae'r holl randdeiliaid wedi cymryd rhan mewn datblygu'r 'datganiad gweledigaeth' hwn. Mae'r ysgolion hyn yn ymgynghori â rhieni a disgyblion yn rheolaidd i sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei datblygu ar draws yr ysgol gyfan. Mae'r datganiad yn crynhoi'r egwyddorion a'r credoau sy'n sail i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Defnyddir y datganiad yn gyson ym mhob dogfen bolisi, ac mae'n gyrru strwythur a chynnwys addysgu a dysgu. Mae arweinwyr, staff, llywodraethwyr a dysgwyr yn cyfeirio'n rheolaidd at y datganiad yn eu gwaith. Mae hyn yn helpu i greu ethos cydlynus, cadarnhaol a dynamig yn yr ysgol. Mae hefyd yn helpu i gynnal ffocws cryf ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais, cyflawniad uchel i bawb, cymorth ar y ddwy ochr a pharch at amrywiaeth.

Mae'r ysgolion llwyddiannus hyn wedi rhoi trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith i adolygu eu cynnydd yn erbyn eu targedau a chamau arfaethedig i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae'r targedau perfformiad unigol ar gyfer staff yn yr ysgol yn adlewyrchu gweledigaeth a thargedau'r ysgol gyfan mewn perthynas â gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais.

# 2 Defnyddio data i olrhain cynnydd dysgwyr dan anfantais

**Yn ein hadroddiad yn 2011, gwelwyd nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn targedu cymorth yn benodol at ddysgwyr sydd dan anfantais, a dim ond rhai ysgolion sydd â mecanweithiau effeithiol i wneud hynny. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn well yn nodi a chefnogi dysgwyr y mae eu perfformiad yn isel, p'un a ydynt dan anfantais ai peidio.**

**Mae llawer o'r ysgolion cynradd llwyddiannus yn yr arolwg hwn yn pwysleisio pwysigrwydd cael gwybodaeth am ddysgwyr dan anfantais cyn gynted ag y bo modd, a chyn i blant ddechrau addysg ffurfiol yn ddelfrydol. Mae rhai ysgolion yn ymweld â theuluoedd dan anfantais gartref cyn i blant oedran meithrin ddechrau'r ysgol. Mae hyn yn golygu y gallant fodloni anghenion penodol dysgwyr pan fyddant yn dechrau'r ysgol.**

**Mae cylch chwarae ar safle Ysgol Melyd yn Sir Ddinbych sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r ysgol. Mae Tîm Ymyrraeth y Blynyddoedd Cynnar yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos â'r ysgol hon i ddarparu cymorth iaith hanfodol wedi'i dargedu ar gyfer dysgwyr anghenus ar ddechrau eu datblygiad.**

**Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion systemau effeithiol i olrhain cynnydd dysgwyr. Yn ein hadroddiad yn 2011, gwelsom nad ydynt yn defnyddio eu systemau olrhain yn ddigon da i ganolbwyntio ar anghenion penodol dysgwyr dan anfantais, fel hunan-barch gwael a diffyg dyhead, neu i fonitro eu cynnydd.**

**Mae gan yr ysgolion mwyaf effeithiol systemau mewnol cadarn i gasglu gwybodaeth am eu dysgwyr dan anfantais. Maent yn cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau allanol hefyd i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion dysgwyr unigol.**

**Mae ysgolion llwyddiannus yn rhannu'r wybodaeth hon yn dda gyda staff, dysgwyr a rhieni hefyd. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth a roddir iddynt i gynllunio ac olrhain cynnydd. Mae dysgwyr yn ei defnyddio eu hunain i fynd ati i olrhain eu cynnydd eu hunain.**

**Mae ysgolion sydd fwyaf llwyddiannus yn mynd i'r afael â thlodi ac anfantais wedi creu systemau data sydd:**

- yn defnyddio ystod o wybodaeth feintiol ac ansoddol, yn cynnwys gwybodaeth am les a chanfyddiadau dysgwyr;
- yn defnyddio meincnodau allanol i fesur eu cynnydd yn erbyn cynnydd ysgolion eraill;
- yn galluogi'r ysgol i olrhain unigolion a grwpiau o ddysgwyr;
- yn galluogi'r ysgol i fonitro ymyriadau yn rheolaidd fel bod strategaethau nad ydynt yn arwain at welliant dysgwyr yn cael eu hadolygu, eu mireinio neu eu hatal;
- yn galluogi'r ysgol i fonitro perfformiad athrawon, fel y gellir eu cynorthwyo'n well i wella'r deilliannau ar gyfer grwpiau neu unigolion; ac
- yn cysylltu'n agos â phrosesau mentora ac yn cefnogi cynnydd grwpiau ac unigolion.

**Caiff y defnydd effeithiol hwn o ddata i olrhain deilliannau disgyblion a thargedu cymorth ei egluro yn astudiaethau achos 1 a 2 isod.**

Mae **Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart** yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi dylunio system broffilio i olrhain cynnydd dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4.

# Astudiaeth achos 1

## Cyd-destun yr ysgol

**Ysgol gymunedol 11-16 yn Llansawel, Castell-nedd Port Talbot yw Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart. Mae 500 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd.**

**At ei gilydd, mae nifer o ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig yn rhan o'r dalgylch, ac mae gan 34% o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan hanner y dysgwyr ym Mlwyddyn 7 hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan yr ysgol ddwy bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ei dalgylch. Mae gan ddau ddeg pedwar y cant o ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol.**

## Strategaeth

**Nod Ysgol Cwrt Sart yw "galluogi pob unigolyn i gyflawni ei lawn botensial o fewn fframwaith o ddisgwyliadau uchel". Mae rhan o strategaeth yr ysgol i wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais yn cynnwys:**

- lleihau'r amrywiaeth mewn perfformiad rhwng pynciau a grwpiau o ddysgwyr;
- dadansoddi data yn effeithiol i osod targedau heriol ac olrhain cynnydd meysydd pwnc, dysgwyr unigol a grwpiau allweddol o ddysgwyr; ac
- ymgorffori prosesau gosod targedau ac olrhain systematig.

## Gweithredu

### Nodi

Mae'r ysgol yn nodi dysgwyr yng ngharfan Blwyddyn 11 sydd:  yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; plant sy'n cael gofal; dysgwyr mwy abl a dawnus; dysgwyr y mae angen cymorth iaith a lleferydd arnynt; a dysgwyr â nam ar eu clyw.

Mae proffil gan bob dysgwr. Mae'r proffiliau hyn yn defnyddio'r wybodaeth uchod ac amrywiaeth o ddata academaidd, yn cynnwys data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT) a gwybodaeth o'r Profion Gallu Gwybyddol (CATs). Defnyddir y data gwaelodlin hwn i ddyrannu 'band ysgol' ar gyfer dysgwyr. Mae saith band ac mae gan bob un isafswm o ran perfformiad disgwyliedig. Er enghraifft, os yw dysgwyr ym mand 5, yr isafswm o ran perfformiad disgwyliedig iddo yng nghyfnod allweddol 4 yw cyflawni gradd 'C' neu gyfwerth mewn TGAU. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol yn disgwyl y bydd pob dysgwr yn cyflawni o leiaf lefel 5. Caiff y targed hwn ei adolygu ddwywaith y flwyddyn yn ystod gosod targedau ysgol gyfan a'i addasu i gynnwys her ar gyfer dysgwyr, lle bydd angen.

Ar ddiwedd Blwyddyn 10, mae athrawon pwnc yn rhoi amcangyfrif o radd ar gyfer pob dysgwr, sy'n cael ei roi ym 'mhroffil y dysgwr'. Defnyddir hyn i nodi dysgwyr sy'n tangyflawni mewn unrhyw feysydd pwnc penodol. Mae'r wybodaeth hon yn ffurfio sail y grwpiau dysgu sy'n cael eu ffurfio ar gyfer Blwyddyn 11, sy'n cynnwys tua chwe dysgwr. Rhoddir y dysgwyr mwy abl a dawnus mewn grŵp ar wahân. Rhoddir dysgwyr sy'n tangyflawni mewn Saesneg neu fathemateg mewn grŵp dysgu pwnc craidd penodol o 10 dysgwr. Mae unrhyw ddysgwyr sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cael eu croesgyfeirio gyda'r grwpiau cychwynnol hyn er mwyn gallu rhoi cymorth unigol ychwanegol i'r dysgwyr hyn. Caiff dysgwyr â nam iaith a lleferydd a nam ar eu clyw eu dysgu gan staff arbenigol.

Caiff pedwar deg y cant o ddysgwyr Blwyddyn 11 eu dysgu yn y modd hwn, a chaiff 11% yn ychwanegol eu dysgu trwy'r cynllun Darllen yn Ehangach (Reaching Wider) mewn cydweithrediad â Phrifysgol Abertawe.

Caiff y proffiliau dysgwyr hyn eu rhannu gyda phob aelod er mwyn gallu cael system gymorth gydlynus.



### Y broses ddysgu

Mae saith aelod o staff, y mae pump ohonynt wedi'u hyfforddi'n anogwyr dysgu, yn cael sesiwn i weithio gyda'r rhai y maent yn eu mentora bob pythefnos. Maent yn gweithio gydag unigolion neu gyda grŵp o ddysgwyr, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i fodloni anghenion penodol. Pan fydd angen, mae anogwyr dysgu'n gweithio gydag athrawon pwnc i ddatblygu mwy o strategaethau. Mewn mathemateg, mae cynllun 'mentora cyfoedion' ar waith mewn rhai dosbarthiadau i ddysgwyr sy'n teimlo'n llai hyderus ynghylch rhifedd. Caiff llythrennedd ei ddatblygu gyda'r grŵp dysgwyr mwy abl a dawnus trwy gymdeithas drafod, a sefydlwyd mewn cysylltiad â'r cydlynydd llythrennedd ac sy'n gorffen gyda fideo yn cael ei gyflwyno gan y dysgwyr i gystadleuaeth Question Time y BBC.

## Arfarnu

Mae'r system broffilio yn galluogi staff i fireinio strategaethau i fynd i'r afael â thangyflawni. Pan gaiff canlyniadau ffug arholiadau eu bwydo i mewn i'r system, mae anogwyr yn myfyrio ar lwyddiant strategaethau amrywiol, ac yn ystyried sut i addasu dulliau a ffyrdd o rannu arfer dda.

Mae dysgwyr yn llenwi holiadur ar ddechrau pob tymor sy'n gofyn iddynt roi gradd i agweddau ar eu hunan-barch, eu hyder a'r nodau a osodir ar eu cyfer. Mae staff yn dadansoddi'r ymatebion ar ôl adolygiad y tymor cyntaf ac yn cyflwyno eu canfyddiadau ar ffurf graff. Mae'r graff yn dangos canran y myfyrwyr a nododd ddatblygiad cadarnhaol ym mhob maes cwestiwn penodol.

**Trwy arfarnu, mae'r ysgol wedi canfod:**

- er bod holiaduron ffurfiannol yn rhoi cipolwg ar y modd y mae teimladau personol dysgwyr amdanyn nhw eu hunain wedi newid, mae angen i athrawon ganfod mwy ynglŷn â pham mae dysgwyr yn teimlo bod y newid hwn wedi digwydd; a
- bod y broses broffilio yn neilltuo amser a chymorth i ddysgwyr nodi eu meysydd gwendid eu hunain, datblygu strategaethau i'w goresgyn a myfyrio ar ba ffyrdd eraill y gallant ddefnyddio'r medrau hyn. Mae'r ysgol yn bwriadu rhoi amser ychwanegol i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol hon ar gyfer Blwyddyn 11 y flwyddyn nesaf.

## Deilliannau

Mae dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda yng Nghwrt Sart. Dros y blynyddoedd diwethaf, maent wedi cyflawni canlyniadau gwell na'r rhai mewn ysgolion tebyg. Yn 2011, fe wnaeth 31% o ddysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim gyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, a oedd yn uwch na pherfformiad cyfartalog dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ledled Cymru (22%).

Mae lefelau presenoldeb wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg am y pum mlynedd diwethaf.

Mae **Ysgol Gynradd Llwynypia** yn Rhondda Cynon Taf yn defnyddio casglu data a phroses sy'n olrhain cynnydd dysgwyr mewn lles a pherfformiad academaidd.

# Astudiaeth achos 2

## Cyd-destun yr ysgol

**Mae Ysgol Gynradd Llwynypia, sydd â 208 o ddysgwyr rhwng tair ac 11 oed, yn gwasanaethu pentref Llwynypia yn Rhondda Cynon Taf.**

**Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dod o'r ardal gyfagos. Disgrifir yr ardal fel un o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn unol ag amcangyfrif Mynegai Amddifadedd Cymru. Mae gan ddau ddeg chwech y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan dri deg pedwar y cant o ddysgwyr anghenion addysgol arbennig.**

## Strategaeth

Mae'r ysgol a nodau a gwerthoedd yr ysgol yn adlewyrchu datblygiad y plentyn cyfan. Mae ethos yr ysgol wedi'i seilio ar les yr holl ddysgwyr a'r staff, ac mae arwyddair yr ysgol, sef "Rydym i gyd yn credu, rydym i gyd yn cyflawni!" ("We all believe, we all achieve!") yn amlwg ar draws yr ysgol. I sicrhau cymorth effeithiol ar gyfer ei dysgwyr dan anfantais, mae'r ysgol wedi datblygu dull systematig o ddatblygu lles dysgwyr.

## Gweithredu

Bu staff yn gweithio mewn grwpiau i nodi'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer lles ar draws yr ysgol. Ymgymerodd dysgwyr â'r un broses wedyn.

Mae staff wedi dyfeisio system olrhain i fonitro lles ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn asesu lles a chyfranogiad dysgwyr ym mhob maes dysgu. Wedyn, maent yn defnyddio system goleuadau traffig i amlygu dysgwyr y mae angen cynnal asesiad manwl o'u hanghenion. Wedyn, mae staff yn asesu dysgwyr unigol ar sail faint o gymorth sydd ei angen arnynt mewn gwahanol feysydd, yn cynnwys, er enghraifft, eu sensitifrwydd i anghenion pobl eraill a'u gallu i fynegi eu hemosiynau. Mae'r system olrhain yn galluogi staff i arfarnu lles dysgwyr a chynorthwyo dysgwyr pan fydd angen. Mae strategaethau cymorth yr ysgol yn cynnwys rhaglenni cwnsela a chyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Mae'r ysgol wedi gweithio gydag ysgolion eraill o'i chlwstwr i ddatblygu'r dull hwn ymhellach a chytuno ar bolisi clwstwr. Fe wnaeth pob un o'r ysgolion dan sylw ddefnyddio'r arolwg Agweddau Disgyblion Atyn Nhw eu Hunain a'r Ysgol (PASS), ochr yn ochr â system nodi'r ysgol, i wella lles ar draws y clwstwr ac mewn ysgolion. Mae'r system hon yn cynnig dull cyson o gefnogi anghenion emosiynol a lles dysgwyr dan anfantais trwy nodi materion a allai gael effaith andwyol ar ddysgu. Trwy goladu'r ddwy set o ddata, gall yr ysgol fireinio'i phroses gosod targedau a'i strategaethau ar gyfer cefnogi dysgu dysgwyr dan anfantais.

Mae olrhain lles yn gysylltiedig â systemau olrhain academaidd, ac fe'i defnyddir i lywio dysgu ac addysgu gwahaniaethol. Caiff cyflawniad ei olrhain o'r meithrin i Flwyddyn 6 ac fe gaiff ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn olrhain cyflawniad grwpiau o ddysgwyr (dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, y rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr mwy abl a dawnus) a'u presenoldeb, ac yn nodi tueddiadau ar draws grwpiau o ddysgwyr. Mae gan staff broffiliau dosbarth yn eu ffeiliau cynllunio, ac mae'r rhain yn darparu trosolwg o ddysgwyr a'r cymorth a gânt.

Mae'r clwstwr o ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau cyfnod pontio didrafferth i ddysgwyr. Caiff gwybodaeth am les a lefelau cyfranogiad dysgwyr, yn ogystal â'u lefelau cyrhaeddiad, eu trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae staff o'r ddwy ysgol yn cyfarfod i drafod unrhyw anghenion unigol.



## Arfarnu

Mae staff yn adolygu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd. Maent yn monitro ac yn arfarnu effeithiolrwydd strategaethau ymyrraeth bob tymor. Mae staff yn gwirio olrhain lles yn rheolaidd ac yn arfarnu effaith strategaethau fel rhaglenni mentora. Mae gwrando ar ddysgwyr yn rhan annatod o broses fonitro a hunanarfarnu'r ysgol.

## Deilliannau

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yn y pynciau craidd wedi gwella'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae yn y chwarter uchaf o ran perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg erbyn hyn. Yng nghyfnod allweddol 1, mae canlyniadau wedi gwella, ac maent yn yr hanner uchaf o'r rhai ar gyfer ysgolion tebyg. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn y ddau gyfnod allweddol wedi gwella. Mae'r dysgwyr hyn wedi cyflawni'n well na'r cyfartaledd o ran dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn y teulu o ysgolion a chyfartaledd Cymru.

Mae dull systematig yn sicrhau bod lles dysgwyr yn cael ei ymgorffori ar draws yr ysgol. Mae dysgwyr yn gwybod bod ganddynt lais a bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Caiff cyfranogiad dysgwyr ei hyrwyddo'n rheolaidd. Mae olrhain lles wedi dangos gwelliant yn hunan-barch a hunanhyder dysgwyr, a synnwyr o gyfrifoldeb a balchder yn eu cyflawniadau.

# 3 Gwella medrau llythrennedd a dysgu dysgwyr dan anfantais

**Mae gan ysgolion effeithiol ddull ysgol gyfan o ddatblygu medrau dysgwyr, yn enwedig datblygu medrau llythrennedd a medrau 'meddwl' neu 'ddysgu'. Mae dysgwyr dan anfantais yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau perthnasol rhag gwneud cynnydd mewn llythrennedd, fel cael llyfrau newydd yn y cartref, cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer ymweliadau addysgol ac amgylchedd gwael i astudio ynddo gartref. Er mwyn i ysgolion oresgyn y rhwystrau hyn yn effeithiol, mae angen iddynt nodi strategaethau penodol i wella gwaith dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r ysgolion mwyaf effeithiol wedi datblygu:**

- rhannu data, fel bod pob un o'r staff yn cael gwybodaeth gyfoes a pherthnasol am fedrau'r dysgwyr yn eu dosbarthiadau;
- archwiliadau i weld ble y caiff medrau penodol eu haddysgu ar draws y cwricwlwm, sy'n galluogi'r ysgol i amlygu ble mae diffygion, ailadrodd neu ddyblygu;
- dull cyffredin o addysgu medrau penodol, fel darllen, ysgrifennu neu agwedd ar waith rhif fel lluosi;
- cynllunio cydlynus ar draws yr ysgol i hwyluso dilyniant wrth ddatblygu medrau;
- hyfforddiant staff ar sut i gyflwyno'r medrau hyn, er enghraifft ar ddulliau o ddarllen;
- enghreifftiau o weithgareddau gwahaniaethol i athrawon eu defnyddio;
- rhaglenni ymyrraeth ar lefelau amrywiol sy'n ddigon hyblyg i fodloni anghenion penodol dysgwyr pan fydd angen;
- partneriaethau cynhyrchiol gyda rhieni a gofalwyr a rhaglenni llythrennedd teuluol; a
- chysylltiadau trefnus adeg mannau pontio i ddatblygu dulliau cyffredin ar draws sectorau a chyfnodau allweddol.

**Mae ysgolion cynradd effeithiol mewn cymunedau difreintiedig yn cydnabod bod dysgwyr dan anfantais yn aml yn dechrau'r ysgol a'u medrau iaith a lleferydd yn fwy cyfyngedig na rhai eu cyfoedion, ac maent yn ymdrechu ar y cyd i fynd i'r afael â'r broblem hon. Maent yn cysylltu'n llwyddiannus â gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau arbenigol i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.**

**Caiff y dulliau llwyddiannus hyn o wella medrau llythrennedd a dysgu dysgwyr eu dangos yn astudiaethau achos 3 a 4 isod.**

# Astudiaeth achos 3

Mae **Ysgol Melyd** yn Sir Ddinbych wedi datblygu cymorth iaith arbenigol ar gyfer ei dysgwyr.

## Cyd-destun yr ysgol

**Mae Ysgol Melyd ym mhentref Alltmelyd ger Prestatyn ar arfordir Gogledd Cymru. Mae'n darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng tair ac 11 oed. Mae'r ysgol mewn dalgylch difreintiedig lle mae lefelau uchel o ddiweithdra. Daw pob dysgwr o gartrefi Saesneg.**

**Mae 147 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd, yn cynnwys 15 sy'n mynychu'r meithrin yn y bore. Mae gan ryw 36% o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae data gwaelodlin yn dangos bod cyrhaeddiad pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol islaw cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae gan bedwar deg tri y cant o ddysgwyr anghenion addysgol arbennig.**

## Strategaeth

Nododd yr ysgol niferoedd cynyddol o ddysgwyr oedd ag anghenion iaith a lleferydd wrth iddynt ddechrau. Er 2004, mae darpariaeth adnoddau iaith wedi'i lleoli yn yr ysgol. Mae hyn yn darparu ar gyfer anghenion plant yng nghyfnod allweddol 1 sydd ag anhwylderau iaith neu leferydd penodol a difrifol. Mae'r plant yn ymuno â gweddill y garfan ar gyfer gweithgareddau ysgol amrywiol.

Roedd rhieni'n gofyn yn gynyddol i'w plant gael addysg prif ffrwd yng nghyfnod allweddol 2 yn yr ysgol. Ymunodd mwy o ddysgwyr ag anghenion iaith a lleferydd y dosbarthiadau prif ffrwd, a bu cynnydd cyffredinol yn eu niferoedd. O ganlyniad, daeth yr angen am hyfforddiant arbenigol mewn addysgu a chefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn flaenoriaeth datblygu yn yr ysgol. Penderfynodd uwch arweinwyr yr ysgol brynu pecyn o hyfforddiant arbenigol er mwyn i bob un o'r staff ddarparu'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol i addysgu a chefnogi dysgwyr ag anghenion iaith a lleferydd.

## Gweithredu

Mae elusen gyfathrebu i blant wedi sefydlu rhaglen ddatblygu i fodloni anghenion y rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr ag anghenion iaith a lleferydd. Ym Medi 2009, prynodd yr ysgol becyn o wybodaeth, ymgynghoriaeth a hyfforddiant ar gyfer staff yr ysgol a fyddai'n arwain at achrediad lefel well lefel 2. Arweiniwyd y prosiect gan yr athro arbenigol o'r ddarpariaeth adnoddau iaith a chydlynydd anghenion addysgol arbennig yr ysgol. Dros y flwyddyn ganlynol, cafodd pob un o'r staff hyfforddiant gan ymgynghorydd. Ychwanegodd cyrsiau hyfforddiant mewnol at yr hyfforddiant. Llwyddodd rhai o'r staff i ennill Diploma Uwch BTEC lefel 3 mewn cymorth therapi iaith a lleferydd pediatrig.

Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cefnogi dysgwyr dan anfantais sydd ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol trwy weithgareddau grŵp annog. Sefydlwyd clwb brecwast i ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae amserlenni â darluniau ym mhob ystafell ddosbarth, ac mae staff yn defnyddio mapiau a strategaethau gweledol eraill i ddatblygu ystod eang o fedrau cyfathrebu dysgwyr. Mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi gweithgareddau unigol a grŵp ar waith, sydd wedi'u teilwra yn ôl anghenion dysgwyr ac yn mynd i'r afael â'r targedau ar gynlluniau cyfathrebu unigol.

Datblygwyd diwylliant o gefnogi cyfathrebu ar draws y cwricwlwm. Mae bodloni anghenion dysgwyr ag anghenion iaith a lleferydd yn elfen greiddiol yn yr ysgol.



## Arfarnu

Ymwelodd tîm achredu yn Hydref 2010 a dyfarnwyd Statws Lefel Well i'r ysgol. Ers yr achredu, gwnaed newidiadau ac addasiadau yn unol â'r angen i alluogi dysgwyr ag anghenion iaith i gymryd rhan yn y cwricwlwm a chyflawni eu llawn botensial. Caiff cynnydd dysgwyr ei olrhain trwy ddefnyddio system fonitro'r ysgol.

## Deilliannau

Mae staff yn fwy ymwybodol o anghenion iaith a lleferydd dysgwyr unigol. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o faterion sy'n codi o brosesu geiriau, cof clywedol, anawsterau iaith derbyngar a mynegiannol. Mae ymddygiad wedi gwella a chaiff ei reoli'n dda. Mae technegau holi a rhoi cyfarwyddyd wedi cael eu haddasu, a chyflwynir gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n ystyried anghenion iaith plentyn.

Erbyn i ddysgwyr gyrraedd cyfnod allweddol 2, maent yn cyflawni'n dda. Mae rhai dysgwyr a gafodd eu hintegreiddio i'r brif ffrwd o'r ddarpariaeth ag adnoddau wedi cyrraedd lefel 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2. Yn 2011, llwyddodd pob dysgwr i gyflawni lefel 4 y CC mewn llafaredd, a chyflawnodd 25% o'r rhain lefel 5 y CC . Mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf, mae perfformiad ar lefel 4 y CC ac yn uwch ym mhob un o'r pynciau craidd wedi bod yn y chwarter uchaf o ran perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg. Nid oes unrhyw ddysgwyr wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r ddarpariaeth ag adnoddau yn denu mwy o ddysgwyr erbyn hyn. Mae nifer y dysgwyr sy'n cael eu hintegreiddio i ddarpariaeth prif ffrwd yr ysgol wedi cynyddu hefyd.

Mae **Ysgol Gyfun Sandfields** wedi dylunio dull ysgol gyfan llwyddiannus o ddatblygu llythrennedd.

# Astudiaeth achos 4

## Cyd-destun yr ysgol

**Mae Ysgol Sandfields yn gwasanaethu ystâd Sandfields ym Mhort Talbot, sef un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd yng Nghymru. Mae 625 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd.**

**Mae gan dri deg naw y cant o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan ryw 12% o ddysgwyr ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, ac mae gan 42% angen addysgol arbennig. Mae darpariaeth adnoddau gwell yn yr ysgol ar gyfer 67 o ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol a dwys.**

## Strategaeth

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, nid oes gan lawer o'r dysgwyr y medrau darllen i gymryd rhan yn y cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi datblygu strategaethau effeithiol i wella medrau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd.

## Gweithredu

Mae'r ysgol wedi datblygu strategaeth ysgol gyfan ar gyfer addysgu medrau.

Yn sgil hyfforddiant i staff, mae staff yn craffu ar raglenni astudio yng nghyfnod allweddol 3 i nodi ble caiff medrau eu haddysgu ar draws meysydd pwnc. Wedyn, mae staff yn mapio amlder a defnydd o fedrau penodol ar gyfer pob maes cwricwlwm ym mhob hanner tymor trwy gydol cyfnod allweddol 3. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ymateb i unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth.

Mae uwch arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad llythrennedd a rhifedd hefyd. Wrth ddefnyddio'r wybodaeth hon, mae staff yn cynllunio rhaglen gymorth strwythuredig ar gyfer y rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn y medrau penodol hyn. Caiff y gweithdai iaith neu fathemateg dilynol eu cynnal gan y cydlynydd anghenion addysgol arbennig mewn ymgynghoriad â'r penaethiaid Saesneg a mathemateg. Mae staff yn olrhain cynnydd dysgwyr gan ddefnyddio proffion llythrennedd a rhifedd. Nod y gweithdai iaith yw gwella oedran darllen swyddogaethol dysgwyr i fod uwchlaw 10 oed. Mae'r targed gwaelodlin hwn yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen unigol ar gyfer tynnu dysgwyr o wersi ar gyfer y ddau weithdy hyn yng nghyfnod allweddol 3. Mae athrawon yn cyfeirio dysgwyr at y gweithdai, ond gall dysgwyr gyfeirio'u hunain hefyd, a gall rhieni ofyn bod eu plant yn mynychu. Mae'r ysgol hefyd wedi atal Ffrangeg ym Mlwyddyn 7 i ddosbarthiadau dethol sydd â diffygion iaith sylweddol. Am dymor, mae'r athro Ffrangeg yn gweithio gyda'r tîm anghenion addysgol arbennig i ddatblygu medrau darllen. Mae dysgwyr yn dilyn rhaglen ymyrraeth strwythuredig. Mae'r dull hwn yn datblygu arbenigedd staff ac yn rhoi mwy o amser i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd hefyd.

Yn ychwanegol, mae'r adran Saesneg, ar ôl dadansoddi data dysgwyr, wedi cyflwyno rhaglen ddarllen yng nghyfnod allweddol 3. Mae pob dysgwr yn dilyn y rhaglen, ac mae'n gwella'r cwricwlwm trwy ganolbwyntio ar fedrau mewn ffordd strwythuredig a mesuradwy. Mae'n darparu dull unffurf ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael safon gyson o gyflwyno, gan ddefnyddio adnoddau priodol, trwy gydol y cyfnod allweddol. Mae'r adran Saesneg wedi cymryd yr awenau i ailysgrifennu polisi asesu'r ysgol gyfan. Mae hyn wedi helpu i wella cysondeb marcio ac adborth i ddysgwyr ar draws yr ysgol.



Mae athrawon yn rhannu arfer dda trwy lanlwytho adnoddau ar fewnrwyd yr ysgol. Ar gyfer pob adnodd iaith, mae arwydd o ddarllenadwyedd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i staff asesu eu hadnoddau ac addasrwydd y deunydd y maent yn ei ddefnyddio.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae'r holl ddysgwyr yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Y nod yw cael pawb i gyflawni lefel 1 a lefel 2 i'r rhai sy'n abl i wneud hynny. Mae'r broses hon yn cysylltu â fframwaith cymwysterau cyfnod allweddol 4, lle mae pob dysgwr yn dilyn cwrs Bagloriaeth Cymru.

## Arfarnu

Mae uwch arweinwyr yn adolygu meysydd y cwricwlwm yn rheolaidd i fonitro cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer medrau. Mae'r ysgol yn casglu safbwyntiau dysgwyr yn rheolaidd.

## Deilliannau

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol rhwng yr adeg pan fyddant yn dechrau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r dysgwyr wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ran cymhwysedd mewn darllen. Pan ddechreuodd y Flwyddyn 9 bresennol yn yr ysgol, roedd oedran darllen tua 73% ohonynt islaw 10 oed. Mae'r dysgwyr wedi elwa'n sylweddol, ac ar hyn o bryd, dim ond 14% o'r garfan sydd ag oedran darllen islaw 10 oed.

Yng nghyfnod allweddol 4, am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod yn y chwarter cyntaf neu'r ail chwarter ar gyfer pob ysgol ar y meincnodau prydau ysgol am ddim ar gyfer pob un o'r prif ddangosyddion. Mae perfformiad ymhlith y gorau yn nheulu'r ysgol.

Mae'r ysgol yn llwyddo i leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu cael. Dros y pum mlynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd[8] rhwng y dysgwyr hynny y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion mwy breintiedig wedi gostwng o 33% i 17%.

8 Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â pherfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.

# 4 Gwella medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais

**Yn ein hadroddiad yn 2011, gwelsom fod arweinwyr yn yr ysgolion prin sy'n gwella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng lles a safonau. Maent yn deall bod dysgwyr dan anfantais yn fwy tebygol o deimlo'n bryderus am yr ysgol, a bod angen iddynt deimlo'n ddiogel ac yn hyderus cyn iddynt allu dechrau dysgu.**

**Mae llawer o ysgolion effeithiol wedi ailstrwythuro eu system gofal bugeiliol i ddelio ag anghenion penodol dysgwyr dan anfantais. Mae'r strwythurau gwell hyn yn aml yn cynnwys cyfuno cymorth academaidd, cymdeithasol ac emosiynol fel bod dysgwyr, y mae eu hanghenion yn aml yn gymhleth, yn gallu elwa ar ddull integredig. Mae dysgwyr dan anfantais yn elwa ar ddulliau mentora lle maent yn cynllunio eu cynnydd, yn siarad am eu cryfderau a'u gwendidau, ac yn cael cymorth arbenigol pan fydd angen.**

**Mae ysgolion effeithiol yn gweld bod datblygu lles cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr yn rhan bwysig o'u dull ysgol gyfan o wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais. Maent yn rhoi ystod eang o ddulliau ar waith sy'n cynorthwyo dysgwyr mewn llawer o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn adolygu'r gwaith hwn yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn parhau i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys:**

- rhaglen gyfoethog o addysg bersonol a chymdeithasol;
- cwnsela sy'n cynnwys cyflogi asiantaethau arbenigol, sefydlu grwpiau cymorth a chwnsela grwpiau a chyfoedion;
- prosesau eirioli;
- prosesau cyfiawnder adferol[9];
- systemau 'cyfaill' sy'n paru dysgwyr i gynorthwyo ei gilydd;
- sesiynau cyfathrebu cymdeithasol penodol i ddatblygu medrau cymdeithasol dysgwyr;
- sesiynau rheoli dicter;
- rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu;
- dulliau amlasiantaethol o ddelio â materion penodol, fel camddefnyddio sylweddau neu iechyd rhywiol; a
- ffocws dygn ar wella presenoldeb dysgwyr.

**Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion effeithiol raglen gref o addysg bersonol a chymdeithasol sy'n treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn adlewyrchu ethos cynhwysol yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae addysg bersonol a chymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad emosiynol dysgwyr ac ar wella safonau mewn siarad a gwrando.**

**Mae'r ysgolion llwyddiannus hyn hefyd yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad moesol dysgwyr ac yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddinasyddiaeth a chyfrifoldeb. Mae gwirfoddoli, gweithgarwch cymunedol a gwaith elusennol i gyd yn nodweddion cryf yn yr ysgolion hyn. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn disgrifio eu hunain fel 'cymuned' neu 'deulu' lle caiff cymorth ar y ddwy ochr ei ganmol a'i annog.**

**Mae astudiaeth achos 5 isod yn dangos y modd yr aeth un ysgol ati i aildrefnu ei system fugeiliol i wella medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr dan anfantais.**

9 Dull o reoli ymddygiad sy'n canolbwyntio ar feithrin perthynas, cymryd cyfrifoldeb a datblygu gwybodaeth emosiynol yw Cyfiawnder Adferol (gweler Thorsborne, M a Vinegrad, D, Restorative Practices in Schools, 2008).

Mae **Ysgol Bryn Elian** yng Nghonwy wedi aildrefnu ei system fugeiliol i fodloni anghenion ei dysgwyr dan anfantais.

# Astudiaeth achos 5

## Cyd-destun yr ysgol

**Ysgol gyfun gymysg 11-18 gyda thua 850 o ddysgwyr yw Ysgol Bryn Elian. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ochr ddwyreiniol Bae Colwyn a'r pentrefi cyfagos. Mae'r dalgylch yn amrywiol ac yn cynnwys ardal o amddifadedd cymdeithasol, sy'n gymwys i gael cyllid cydgyfeirio Ewropeaidd. Mae gan ddau ddeg dau y cant o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae tri deg y cant o ddysgwyr ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.**

## Strategaeth

Cydnabu'r ysgol fod angen ailffurfio'r system fugeiliol fel ei bod yn addas ar gyfer dysgwyr. Roedd angen cymorth academaidd a bugeiliol penodol ar ddysgwyr dan anfantais i oresgyn eu rhwystrau unigol rhag gwneud cynnydd. Penodwyd mentor dysgu nad yw'n addysgu i bob grŵp blwyddyn i gynorthwyo rheolwr dysgu, aelod o staff addysgu'r ysgol. Yn unol â chynllun strategol yr ysgol, hyfforddwyd pob mentor i fod yn anogwyr dysgu.

## Gweithredu

**Mae mentoriaid dysgu yn ymgymryd ag ystod o dasgau. Maent:**

- yn defnyddio data prawf Agweddau Disgyblion Atyn Nhw eu Hunain a'r Ysgol (PASS) i nodi'r rhwystrau rhag dysgu i ddysgwyr dan anfantais unigol. Trwy waith unigol a gwaith grŵp, mae mentoriaid yn gweithio gyda'r dysgwr i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion;
- yn dadansoddi data ar gyfer eu grŵp blwyddyn bob chwe wythnos, gan fesur perfformiad a chynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd. Pan fydd dysgwyr yn methu cyrraedd eu targedau, caiff strategaethau eu hailasesu, ac mae mentoriaid dysgu yn targedu unigolion ar gyfer sesiynau mentora;
- yn rhoi cymorth ymddygiad i staff a dysgwyr trwy gynnal sesiynau un i un gyda dysgwyr, ac fe barheir â nhw wedyn yn yr ystafell ddosbarth, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- yn goruchwylio sesiynau 'dal i fyny' a 'chymorthfeydd gwaith cwrs' gyda dysgwyr sydd wedi bod yn absennol neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt;
- yn cysylltu ag asiantaethau eraill i gydweithio'n agos â dysgwyr ar y gofrestr amddiffyn plant, ar y gofrestr plant sy'n cael gofal a'r rhai sydd dan adain y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg;
- yn gweithredu system alw ar y diwrnod cyntaf y mae disgybl yn absennol; ac
- yn rhan annatod o strwythur bugeiliol yr ysgol.

Mae pob mentor wedi cael ei hyfforddi gan seicolegydd clinigol mewn therapi ymddygiad gwybyddol hefyd. Mae mentoriaid unigol wedi cael eu hyfforddi mewn maes arbenigedd. Mae'r mentoriaid yn gweithio fel tîm trwy gyfeirio grwpiau o ddysgwyr â phroblemau penodol at fentor sy'n arbenigo yn y maes hwnnw. Mae mentoriaid yn cynnal sesiynau ar gyfer dysgwyr mewn meysydd fel datblygu cyfeillgarwch, meddwl cadarnhaol ac ymddygiad a rhaglenni cymorth i gyfoedion mewn grŵp. Mae mentoriaid yn ennyn diddordeb dysgwyr mewn prosiectau a gynlluniwyd i ddatblygu empathi a datrys problemau bywyd go iawn hefyd.

Fe wnaeth yr ysgol hefyd sefydlu 'canolfan cymorth i ddisgyblion' (PSC) yn 2006-2007 i gynorthwyo dysgwyr â phroblemau ymddygiad. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi newid natur y cymorth a gynigir yn y PSC i gryfhau lles emosiynol dysgwyr.



## Arfarnu

**Caiff gwaith mentoriaid dysgu ei arfarnu trwy ddadansoddi:**

- data perfformiad disgyblion;
- data PASS;
- monitro ymddygiad a phresenoldeb; ac
- adborth gan ddysgwyr.

**Mae arfarnu gwaith mentoriaid dysgu wedi dangos bod angen i'r ysgol wneud y canlynol i wella'r gwaith a wnânt:**

- nodi mwy o gyfleoedd hyfforddiant achrededig ar gyfer mentoriaid;
- cryfhau'r tîm trwy gael gweithwyr allweddol yng nghyfnod allweddol 3 ac yng nghyfnod allweddol 5; a
- datblygu strategaethau i ddarparu mwy o sesiynau ar ôl yr ysgol ar gyfer dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim ac ar gyfer plant sy'n cael gofal.

## Deilliannau

Mae lefelau presenoldeb wedi bod yn y chwarter uchaf o blith y rhai ar gyfer ysgolion tebyg am y pedair blynedd diwethaf. Mae presenoldeb dysgwyr dan anfantais wedi gwella.

Mae data PASS yn dangos bod agwedd dysgwyr at ddysgu wedi gwella.

Yn y flwyddyn academaidd bresennol, bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr sydd â phroblemau ymddygiad. Mae problemau emosiynol gan bob dysgwr sy'n cael cymorth gan y ganolfan cymorth i ddisgyblion, ac nid ydynt wedi cael eu cyfeirio yn sgil ymddygiad gwael.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni lefel 2 wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, o 25% yn 2009 i 70% yn 2011, ac mae lefelau perfformiad yn llawer gwell na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan erbyn hyn.

# 5 Gwella presenoldeb, prydlondeb ac ymddygiad dysgwyr dan anfantais

**Mae ysgolion effeithiol yn rhoi ffocws parhaus i bresenoldeb da, prydlondeb ac ymddygiad cadarnhaol. Maent yn annog cymhelliant cynhenid dysgwyr. Mae ganddynt gosbau addas, ond yn gweld bod systemau gwobrwyo yn gweithio'n arbennig o dda, yn enwedig i wella presenoldeb.**

**Nodwedd allweddol arall yn yr ysgolion effeithiol hyn yw'r ffaith eu bod wedi datblygu eu 'hystafell eithrio' yn amgylchedd dysgu cadarnhaol neu'n lloches i ddysgwyr sy'n agored i niwed.**

**Caiff y dulliau llwyddiannus hyn o wella presenoldeb ac ymddygiad eu hegluro yn astudiaethau achos 6 a 7 isod.**

Mae **Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed** yn Abertawe wedi llwyddo i wella presenoldeb trwy ddefnyddio ystod o ddulliau.

# Astudiaeth achos 6

## Cyd-destun yr ysgol

**Ysgol gyfun gymysg 11-16 ar ochr ddwyreiniol Abertawe yw Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed. Mae'r ysgol yn yr unfed ward ar ddeg mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 73% o ddysgwyr yn byw mewn 30% o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 664 o ddysgwyr ar y gofrestr, ac mae 36% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer fawr o ddysgwyr yn trosglwyddo i mewn ac allan o'r ysgol.**

## Strategaeth

Mae gwella presenoldeb wedi bod yn flaenoriaeth strategol yn y cynllun datblygu ysgol ers cael ei nodi'n argymhelliad arolygu yn 2005. Ar yr adeg honno, barnwyd bod presenoldeb yn anfoddhaol. Argymhellodd y tîm arolygu hefyd y dylai'r ysgol arfarnu, a bu gwelliant yn narpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 i ddysgwyr gallu cymedrol ac is. Roedd yr ysgol yn ystyried bod yr argymhellion hyn yn gydberthynol.

**Mae camau strategol allweddol i wella presenoldeb wedi cynnwys:**

- datblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i anghenion yng nghyfnod allweddol 4;
- trawsnewid cwricwlwm cyfnod allweddol 3 trwy newid cynlluniau gwaith sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm medrau;
- cymell Blwyddyn 9 yn nhymor yr haf gyda rhaglen o fedrau allweddol achrededig; a
- chraffu ar ystod o faterion presenoldeb i nodi blaenoriaethau a sefydlu meini prawf llwyddo i fesur gwelliant.

**Sefydlodd yr ysgol grŵp ffocws ar bresenoldeb gyda chenhadaeth i:**

- leihau absenoldebau anawdurdodedig;
- diffinio'r gweithdrefnau ar gyfer ceisiadau am wyliau yn ystod y tymor;
- lleihau triwantiaeth a gwella prydlondeb; a
- rheoli presenoldeb trwy gynllun parhad busnes.

## Gweithredu

**Presenoldeb yw'r eitem gyntaf ar yr agenda yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol, y tîm arweinyddiaeth, yr uwch dîm bugeiliol a'r tîm bugeiliol. I wella presenoldeb, datblygodd yr ysgol nifer o ddulliau, sef:**

- ymestynnwyd tîm o swyddogion cymorth bugeiliol (SCB), a sefydlwyd i ddechrau trwy gyllid Rhagori, ac fe gafodd ei ariannu'n ddiweddarach gan gyllideb yr ysgol. Mae swyddogion cymorth bugeiliol a'r Swyddog Lles Addysg (SLlA) yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd. Mae tiwtoriaid dosbarth yn cefnogi gwaith y swyddogion cymorth bugeiliol ar bresenoldeb. Mae'r swyddogion cymorth bugeiliol a'r uwch dîm bugeiliol yn cynnwys cyfarfodydd cymorth sydd wedi'u hanelu at rieni targedig;
- ailstrwythurwyd y tîm bugeiliol a gwnaed newidiadau i gyfrifoldebau addysgu a dysgu ac i ddefnyddio staff cysylltiol;
- bu'r ysgol yn arbrofi â system negeseuon testun i fonitro presenoldeb, ac yn dilyn adborth cadarnhaol gan rieni, datblygwyd hyn ar gyfer yr ysgol gyfan;
- cafodd cyllid ENGAGE (cynllun cyllid Ewropeaidd, sy'n cael ei redeg trwy Lywodraeth Cymru) ei dargedu at bresenoldeb dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH) yng nghyfnod allweddol 4;
- bu grŵp ffocws ar bresenoldeb yn cyfarfod bob mis, wedi'i gadeirio gan y pennaeth;
- buddsoddodd yr ysgol mewn hyfforddiant staff i wella cysondeb cysylltu presenoldeb a chynnydd mewn adborth i ddysgwyr yn ystod yr adolygiadau academaidd ddwywaith y flwyddyn, i rieni mewn nosweithiau rhieni ac wrth gwblhau adroddiadau dysgwyr;



- defnyddiodd yr ysgol arfer dda ei hysgolion cynradd o ran lles a chymorth i ddysgwyr. Datblygodd ddarpariaeth gofleidiol, yn cynnwys clwb brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol, a gynlluniwyd i ddatblygu medrau personol a dysgu dysgwyr; ac
- ystod o weithio amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar bresenoldeb, yn cynnwys y prosiect 'So To Do', sef Prosiect Menter Ieuenctid, gwasanaeth seicoleg addysg, cymorth ymddygiad, Ymgysylltu â Dysgwyr yn Abertawe a'r Gwasanaeth Ymgynghorol ar gyfer Ieithoedd Ethnig Lleiafrifol.

**Caiff dysgwyr eu gwobrwyo am bresenoldeb da hefyd trwy:**

- wobrau pwysig mewn Noswaith Wobrwyo Flynyddol;
- llythyrau tymhorol at rieni i ddysgwyr y mae eu presenoldeb yn 95%+; a
- gwobrau arbennig am bresenoldeb 100% am y flwyddyn gyfan.

## Arfarnu

**Mae cyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod staff yn monitro ac yn arfarnu strategaethau presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- cyfarfodydd monitro wythnosol penaethiaid ysgolion is, canol, uwch;
- cyfarfod swyddogion cymorth bugeiliol cyn cyfarfod y swyddogion cymorth bugeiliol/ swyddog lles addysg;
- cyfarfodydd monitro wythnosol swyddogion cymorth bugeiliol/swyddog lles addysg; a
- chyfarfodydd monitro misol y grŵp ffocws ar bresenoldeb i nodi materion o archwilio data yn ôl grŵp blwyddyn, rhywedd a grwpiau o ddysgwyr (ethnig lleiafrifol, anghenion addysgol arbennig, plant sy'n cael gofal a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim).

## Deilliannau

**Mae deilliannau yn cynnwys:**

- presenoldeb gwell ym mhob grŵp blwyddyn o flwyddyn i flwyddyn: dros y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb cyffredinol wedi cynyddu o 83.4% i 90.9%;
- presenoldeb gwell ar draws grwpiau o ddysgwyr. Yn y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb Blwyddyn 11 wedi cynyddu o 62% i 90.6%;
- gostyngiad yng nghanran yr absenoldebau anawdurdodedig yn ôl grŵp blwyddyn ac yn gyffredinol. At ei gilydd, mae canran yr absenoldebau anawdurdodedig wedi gostwng o 15.8% i 0.8% dros y pum mlynedd diwethaf;
- dilyniant cynyddol i'r sector ôl-16 o ganlyniad i bresenoldeb ac ymgysylltu gwell;
- gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn y ganran sy'n gadael heb gymwysterau. Bu gostyngiad cyson yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael heb unrhyw gymhwyster, o 7% yn 2005 i 0% yn 2011;
- perthnasoedd agosach gyda rhieni/gofalwyr a dysgwyr unigol trwy fonitro presenoldeb mewn modd sensitif; a
- lles gwell dysgwyr yn sgil ymgysylltu cyson a pharhaus trwy bresenoldeb gwell.

Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella o 45% i 63%, ac yng nghyfnod allweddol 4 o 23% i 37%. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau yng Nghefn Hengoed wedi bod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion.

Mae gan **Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart** Ganolfan Astudio lwyddiannus i Fyfyrwyr i gefnogi anghenion dysgwyr dan anfantais.

# Astudiaeth achos 7

## Cyd-destun yr ysgol

**Gweler astudiaeth achos 1 (Tudalen 5) i gael gwybodaeth gefndir.**

## Strategaeth

**Dechreuwyd datblygu'r ganolfan cymorth i astudio yn nhymor yr haf 2008. Nod y ganolfan oedd:**

- cefnogi anghenion unigol dysgwyr ymhellach;
- hyrwyddo lles dysgwyr; a
- helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial trwy greu amgylchedd dysgu diogel.

Mae'r ganolfan yn dangos egwyddorion ac arferion meithringar, sy'n cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Er bod prif ffocws y ganolfan ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol, mae'r strategaeth hon hefyd yn hyrwyddo cyflawniad academaidd i bob dysgwr.

## Gweithredu

Ym Medi 2008, penodwyd athro arbenigol a chynorthwyydd cymorth dysgu ar gyfer y ganolfan. Dyfeisiodd yr ysgol feini prawf a phrosesau ar gyfer cyfeirio i'r ganolfan.

**Mae'r ganolfan yn cynnig:**

- dewis arall yn lle gwahardd yn barhaus;
- cymorth i ddysgwyr sy'n dychwelyd o gael eu gwahardd am gyfnod penodol;
- cymorth am driwantiaid parhaus a'r rhai sydd â 'ffobia ysgol';
- cymorth i ddysgwyr sy'n cael eu cyfeirio gan staff yn sgil diffyg cynnydd oherwydd ymddygiad gwael parhaus;
- rhaglenni ailintegreiddio i ddysgwyr a fynychodd unedau cyfeirio dysgwyr yn y gorffennol;
- rhaglenni cymorth i ddysgwyr â salwch tymor hir neu ddysgwyr sy'n feichiog;
- cymorth i'r dysgwyr hynny sydd wedi cael eu symud dan reolaeth o ysgol arall;
- lleoliad i ddysgwyr sy'n aros am leoliadau mewn darpariaeth arall;
- lloches i ddysgwyr sydd wedi cael eu bwlio, dan straen, yn gwrthdaro â chyfoedion, mewn profedigaeth a dylanwadau eraill sy'n effeithio ar eu presenoldeb a'u cynnydd (gallai'r cyfeiriadau hyn ddod trwy asiantaethau eraill a rhieni);
- rhaglenni ymyrraeth priodol i'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; a
- rhaglen ymyrraeth ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi cymryd rhan mewn grŵp anogaeth mewn lleoliad cynradd ac y mae angen cymorth arnynt yn ystod cyfnod pontio.

Gwneir cyfeiriadau yn ysgrifenedig at y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol neu'r pennaeth cynorthwyol gan ddefnyddio ffurflen Gyfeirio'r Ganolfan. Wedyn, caiff rhaglen unigol briodol a strwythuredig ei threfnu ar gyfer y dysgwr. Bydd pob dysgwr yn cael ei sesiynau amserlenedig ei hun, a cheir gosod targedau ac adolygu yn rheolaidd. Lle bo'n berthnasol, mae grwpiau o ddysgwyr yn gweithio ar faterion gyda'i gilydd, er enghraifft mewn newid ymddygiad. Mae cysylltiadau â dosbarthiadau prif ffrwd, rhieni ac asiantaethau eraill yn hanfodol ac yn parhau i fod yn rhan annatod o raglen pob dysgwr. Yn y modd hwn, ni chaiff dysgwyr yn y Ganolfan eu hynysu oddi wrth gymuned yr ysgol gyfan.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno grŵp cymorth i rieni i wella'r cysylltiadau gyda theuluoedd dysgwyr.



## Arfarnu

Caiff cynnydd unigol dysgwyr ei fonitro trwy systemau olrhain yr ysgol. Yn ychwanegol, mae staff y Ganolfan yn cael cyfarfodydd wythnosol i adolygu cynnydd dysgwyr. Mae'r ysgol yn cynnwys staff y Ganolfan wrth arsylwi cymheiriaid ar draws yr ysgol i ddatblygu arfer effeithiol wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion penodol. Mae'r ysgol yn dadansoddi adborth gan rieni, staff, dysgwyr, ymgynghorwyr yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol.

Mae'r ysgol yn bwriadu datblygu'r ddarpariaeth hon i gynnwys ymestyn cynllun darllen mewn parau sy'n cynnwys y mentoriaid cyfoedion a myfyrwyr targedig yn y Ganolfan, grŵp profedigaeth cyfoedion a grŵp rheoli dicter i ferched.

## Deilliannau

**Mae gwaith y Ganolfan wedi cael effaith gadarnhaol sy'n arwain at:**

- bresenoldeb gwell ymhlith dysgwyr;
- gostyngiad yn nifer y cyfeiriadau oherwydd ymddygiad gwael;
- gostyngiad yn nifer y cyfeiriadau at gymorth dysgu; a
- gostyngiad yn nifer y dysgwyr y mae angen cymorth amlasiantaethol arnynt.

Dywedodd wyth deg tri y cant o ddysgwyr sy'n mynd i'r ganolfan eu bod yn teimlo'n fwy hunanhyderus. Roedd wyth deg chwech y cant o fyfyrwyr yn teimlo bod y cymorth yr oeddent wedi'i gael yn eu helpu i gyflawni ym mywyd bob dydd yr ysgol. Roedd wyth deg y cant o fyfyrwyr yn teimlo bod eu hymddygiad wedi newid a'u bod yn gallu dangos hyn mewn gwersi prif ffrwd. Dywedodd naw deg y cant o ddysgwyr sydd wedi cael cymorth yn ystod y cyfnod pontio eu bod yn teimlo'n llai pryderus ynglŷn â newidiadau mewn bywyd ysgol. Mae pob dysgwr a aeth yn ôl i'r ysgol ym Mlwyddyn 11, yn dilyn llawer o absenoldeb o unrhyw addysg ffurfiol, wedi ennill cymwysterau ac wedi symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae'r ysgol wedi defnyddio arfarniad y Ganolfan i lywio meysydd eraill o waith yr ysgol ar ddatblygu medrau cymdeithasol a dysgu dysgwyr. O ganlyniad i'r arfarniad hwn, mae'r clwb brecwast cyn-ysgol a'r ddarpariaeth amser egwyl ac amser cinio bellach yn canolbwyntio ar grwpiau cyfeillgarwch, mentora cyfoedion, anghenion gwaith cartref a newid ymddygiad.

# 6 Teilwra'r cwricwlwm i fodloni anghenion dysgwyr dan anfantais.

**Yn ein hadroddiad yn 2011, gwelsom fod y rhan fwyaf o ysgolion wedi addasu'r cwricwlwm y maent yn ei gynnig i'w wneud yn fwy perthnasol i'r holl ddysgwyr. Fodd bynnag, mae'r ysgolion sydd fwyaf effeithiol wrth fynd i'r afael â materion tlodi ac anfantais yn rhannu nifer o ddulliau cyffredin o wneud eu cwricwlwm yn fwy priodol i'w dysgwyr dan anfantais. Maent:**

- yn dadansoddi data a gwybodaeth arall i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu rhoi mewn grwpiau addas ar gyfer eu hanghenion penodol, ac i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da;
- yn adolygu'r cwricwlwm yn rheolaidd i'w deilwra yn unol ag anghenion dysgwyr;
- yn gwrando ar safbwyntiau dysgwyr dan anfantais wrth addasu gwersi a chynlluniau gwaith;
- yn rhoi dewis dilys i ddysgwyr, trwy wneud yn siŵr bod dewislenni yn ymarferol;
- yn cynnig cyfleoedd rhagorol i ddysgwyr ymgysylltu â'u cymuned leol;
- yn darparu profiadau a chyfleoedd sy'n cyfoethogi profiadau dysgu dysgwyr dan anfantais ac yn eu galluogi i ennill cymwysterau o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol; ac
- wedi sefydlu systemau mentora sy'n tywys dysgwyr trwy eu rhaglenni astudio ac yn eu helpu i gynllunio eu llwybrau dysgu eu hunain.

**Mae ysgolion sy'n mynd ati'n effeithiol i herio materion yn ymwneud ag anfantais yn deall bod bechgyn gwyn dosbarth gweithiol yn llai tebygol o gyflawni eu potensial nag unrhyw grŵp arall o ddysgwyr. Mae'r ysgolion hyn yn newid y ffordd y maent yn trefnu profiadau dysgu i gymell bechgyn, cynnal eu diddordeb mewn dysgu, a'u helpu i wella eu medrau. Maent yn casglu gwybodaeth yn rheolaidd gan ddysgwyr gwrywaidd i addasu'r cwricwlwm i fodloni eu hanghenion a'u diddordebau'n well. Mae staff yn yr ysgolion hyn yn defnyddio canfyddiadau ymchwil i lywio eu dulliau addysgu, ac nid ydynt yn gorsymleiddio materion bechgyn/merched nac yn cyffredinoli'n amhriodol am hoff ddulliau dysgu bechgyn.[10]**

**Mewn ychydig iawn o ysgolion llwyddiannus, defnyddir y cwricwlwm hefyd i archwilio materion yn ymwneud â thlodi ac anfantais mewn ystod o feysydd pwnc. Mae athrawon yn yr ysgolion hyn wedi helpu dysgwyr i ystyried y modd y gall gweithredu cadarnhaol ddileu neu leihau stigma tlodi a delio ag agweddau negyddol. Gall hyn, yn ei dro, helpu i godi dyheadau disgyblion i'w cymuned ac iddyn nhw eu hunain.**

**Gweler astudiaeth achos 1 –** ddarllen ynglŷn â'r modd y mae Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart yng Nghastell-nedd Port Talbot yn defnyddio'i system broffilio i dywys disgyblion trwy'r cwricwlwm.

**Gweler astudiaeth achos 11 –** i ddarllen ynglŷn â'r modd y mae Ysgol Gyfun Cefn Hengoed yn Abertawe yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau ar gyfer gwrando ar ddysgwyr i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dewisiadau dysgu.

10 Estyn, Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed – Mai 2008

# 7 Darparu profiadau cyfoethog ac allgyrsiol

Mae dysgwyr dan anfantais yn llai tebygol na'u cyfoedion o elwa ar ystod eang o brofiadau diwylliannol, chwaraeon a phrofiadau dysgu eraill. Anaml y mae'r dysgwyr hyn yn teithio'r tu hwnt i'r ardal lle maent yn byw, ac yn aml, nid ydynt yn archwilio ystod y cyfleoedd ar gyfer dysgu yn eu cymuned leol. Nodwedd gyffredin yn y rhan fwyaf o'r ysgolion llwyddiannus yw eu darpariaeth eang i ehangu profiadau eu dysgwyr sydd dan anfantais. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau cymdeithasol a dysgu.

Mae ysgolion llwyddiannus yn cynnig dewislen amrywiol o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol. Maent yn cynllunio ystod eang o wibdeithiau diwylliannol ac addysgol, ac yn cynorthwyo dysgwyr dan anfantais i gymryd rhan mewn teithiau preswyl. Maent yn mynd ati'n ofalus i arfarnu'r effaith a gaiff gweithgareddau y tu allan i oriau a gweithgareddau cyfoethogi ar eu dysgwyr sydd dan anfantais ac yn cynnwys y dysgwyr hynny a fyddai'n elwa fwyaf.

Mae gan ysgolion amrywiaeth o ffyrdd creadigol a sensitif i sicrhau nad oes yr un dysgwr yn colli cyfle gan nad yw eu rhieni'n gallu talu. Maent yn darparu cludiant ac offer i sicrhau cydraddoldeb i bob dysgwr. Maent yn rhagweithiol wrth godi arian a chael arian grant.

Mae rhai ysgolion yn cynnig gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol sy'n galluogi dysgwyr i ennill cymwysterau, fel y rhai mewn drama neu ddawns, neu weithiau gan ddefnyddio credydau o'r Brifysgol i Blant. Mae'r gweithgareddau hyn yn cymell dysgwyr ac yn rhoi cyfleoedd iddynt wella eu cyflawniadau. Mae ysgolion effeithiol yn addasu'r diwrnod ysgol hefyd i wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar y gweithgareddau cyfoethogi hyn.

Mae ysgolion effeithiol yn trefnu gwibdeithiau i leoedd a digwyddiadau na fyddai dysgwyr dan anfantais efallai'n mynd iddynt fel arall, fel amgueddfeydd, a pherfformiadau cerddorfaol a theatrig. Maent yn ymwybodol y gall hyd yn oed gweithgareddau sy'n ymddangos yn ddiflas wneud gwahaniaeth wrth roi hyder i ddysgwyr a gwella eu medrau bywyd. Gall hyd yn oed gweithgareddau fel ymweld â dinas gyfagos neu fynd ar drên gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

Fodd bynnag, mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol hefyd yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau yn eu hardal eu hunain. Maent yn gweithio'n galed i fod yn rhan annatod o'u cymuned leol. Maent yn mynd â dysgwyr allan i'r gymuned ac yn gwahodd preswylwyr, pobl fusnes ac arweinwyr crefyddol lleol i'r ysgol hefyd.

Mae rhai ysgolion effeithiol mewn ardaloedd lle ceir llawer o amddifadedd wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer adfywio yn yr ardal. Maent wedi defnyddio adeiladau'r ysgol i ddarparu man cyfarfod ar gyfer grwpiau cymunedol a gweithgareddau adfywio. Er enghraifft, mae Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed wedi cynnal cyfarfodydd grŵp prosiect Cymunedau yn Gyntaf i wella'r amgylchedd lleol a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn wedi helpu'r ysgol a'r gymuned leol i hyrwyddo ymwybyddiaeth gymunedol a gweithio ar y cyd. Mae hefyd wedi cyfoethogi profiadau dysgwyr ac wedi cyfrannu at eu hastudiaethau Bagloriaeth Cymru.

Mae rhai ysgolion cynradd yn ein harolwg yn cofrestru pob un o'u dysgwyr yn y llyfrgell leol. Nid oedd llawer o'u dysgwyr dan anfantais wedi bod i'r llyfrgell erioed o'r blaen, er ei bod o fewn pellter cerdded i'r ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn meithrin perthnasoedd gweithio effeithiol gyda staff yn y llyfrgell. Mae hyn yn eu helpu i gysylltu gwaith yn y llyfrgell yn uniongyrchol â'u cwricwlwm a threfnu gwaith prosiect i ddysgwyr mwy abl a dawnus.

Mae llawer o'r ysgolion llwyddiannus hyn yn gwahodd amrywiaeth o ymwelwyr i'r ysgol, yn cynnwys arlunwyr, beirdd ac awduron, i wella profiadau dysgu'r dysgwyr. Mae'r profiadau hyn yn gwella hunan-barch dysgwyr trwy ddatblygu eu gallu i fynegi eu syniadau a'u teimladau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau academaidd dysgwyr. Mae ysgolion yn dewis ymwelwyr yn ofalus, er enghraifft trwy ddewis arlunwyr o'r ardal leol neu drwy wahodd awduron sydd wedi wynebu tlodi ac anfantais eu hunain. Mae rhai ysgolion wedi gwahodd awduron sy'n ddynion i'r ysgol i fod yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer bechgyn.

Mae llawer o ysgolion effeithiol yn darparu adnoddau ac amser ychwanegol i gefnogi cynnydd academaidd dysgwyr. Y tu allan i oriau ysgol, maent yn darparu lle ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, llyfrau a staff i ddysgwyr ymestyn eu hastudiaethau ac adolygu ar gyfer arholiadau. Mae hyn yn hanfodol i ddysgwyr nad oes ganddynt fynediad at adnoddau dysgu neu eu lle eu hunain gartref.

Astudiaeth achos 8

Mae **Ysgol Gynradd Y Castell** yn Sir Gaerfyrddin yn trefnu teithiau i'r Almaen a Ffrainc i gyfoethogi profiadau dysgu ei dysgwyr sydd dan anfantais.

## Cyd-destun yr ysgol

**Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg sydd â meithrinfa integredig yw Ysgol y Castell. Mae tua 240 o ddysgwyr rhwng tair ac 11 oed yn yr ysgol, ac mae cofrestr yr ysgol yn cynyddu. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng Nghydweli yng Ngorllewin Cymru, mewn ardal sydd â llawer o amddifadedd. Mae gan dri deg wyth y cant o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd.**

## Strategaeth

**Strategaeth yr ysgol oedd:**

- cyflwyno Ffrangeg ym Mlwyddyn 6 a chyflwyno Almaeneg sylfaenol iawn ym Mlwyddyn 5 hefyd er mwyn llythyru â ffrindiau gohebol mewn ysgolion cyswllt yn Ewrop;
- codi dyheadau, cynyddu cyfranogiad ac ehangu profiadau dysgwyr dan anfantais, trwy gynnig un cyfle i bob dysgwr deithio dramor yn ystod cyfnod allweddol 2; a
- datblygu dinasyddiaeth fyd-eang trwy gysylltu gydag ysgolion yn Yr Almaen a Ffrainc.

Roedd yr ysgol hefyd yn bwriadu gwella cyfraddau presenoldeb ei dysgwyr sydd dan anfantais a chynnwys rhieni yn eu strategaeth.

## Gweithredu

Mae Ffrangeg wedi cael ei haddysgu ym Mlwyddyn 6 er 2005 pan oedd yr ysgol yn rhan o gynllun peilot CILT (Canolfan Ieithoedd Genedlaethol) Cymru ar gyfer cyflwyno ieithoedd tramor modern yn y cwricwlwm cynradd. Trwy gydol y cynllun peilot pedair blynedd, bu'r ysgol yn gweithio'n agos â'r adran ieithoedd tramor modern yn Ysgol Gyfun Glan y Môr, a'i chlwstwr o ysgolion cynradd. Ar ddiwedd y cynllun peilot a ariennir, parhaodd Ysgol y Castell â'r rhaglen gan y bu'n llwyddiannus yn ysbrydoli'r holl ddysgwyr. Mae'r ffocws ar wrando, siarad brawddegau syml, canu caneuon syml a chwarae gemau. Nod y prosiect yw cyfathrebu gyda ffrindiau gohebol mewn ysgolion cyswllt.

Trwy gysylltiadau â Chymdeithas Efeillio Cydweli, trefnodd yr ysgol daith i Lydaw. Cynhaliwyd y daith gyntaf i'w gefeilldref, St Jacut de la Mer, yn Llydaw yn 2006. Aeth y pennaeth a'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig â grŵp o ddysgwyr o Flynyddoedd 5 a 6. Yn ystod trydydd ymweliad, daeth rhai rhieni hefyd. Rhieni a oedd naill ai'n gallu fforddio cymryd rhan neu a oedd yn teimlo cymhelliant dros eu plant a oedd wedi manteisio ar y teithiau hyn yn bennaf. O ganlyniad, gwnaeth yr ysgol gais am grant amlweddog Comenius i gael cyllid er mwyn i fwy o ddysgwyr dan anfantais allu cymryd rhan. Penderfynodd yr ysgol flaenoriaethu cyfranogiad dysgwyr yr oedd angen datblygu eu medrau ac nad oeddent erioed wedi cael y cyfle i deithio. O'r 23 o ddysgwyr a gymerodd ran yn yr ymweliadau tramor yn 2011, dim ond pedwar oedd wedi hedfan o'r blaen, ac nid oedd rhai ohonynt erioed wedi teithio heb eu rhieni. Doedd y mwyafrif ohonynt erioed wedi aros oddi cartref. Cafodd dysgwyr eu nodi hefyd o'r rhaglen Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) ar gyfer olrhain lles. O ganlyniad, roedd yr ymweliad yn cynnwys dysgwyr ag ystod o broblemau, fel hunan-barch gwael a thuedd i chwarae'n ymosodol, a'r rhai oedd yn cael trafferth canolbwyntio.



## Arfarnu

Rhoddodd yr ysgol holiaduron i ddysgwyr a rhieni. Cafodd grŵp o ddysgwyr a gafodd eu targedu i ddatblygu eu medrau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol eu monitro i asesu eu datblygiad trwy eu cynlluniau addysg unigol.

Caiff cyflawniadau dysgwyr mewn ieithoedd tramor modern eu holrhain yn yr ysgol uwchradd.

## Deilliannau

Y canlyniad mwyaf nodedig fu hunan-barch gwell y dysgwyr. Mae bechgyn sy'n tangyflawni a'r rhai sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad wedi elwa'n fawr trwy gael eu hannog i roi cynnig ar rywbeth cwbl newydd a thrwy gyfathrebu gyda ffrindiau gohebol. Mae olrhain asesu lles yn dangos bod dysgwyr, ar ôl yr ymweliadau, wedi teimlo mwy o gymhelliant i lwyddo a chymryd rhan mewn mwy o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol uwchradd yn nodi agwedd fwy cadarnhaol tuag at ddysgu ieithoedd tramor modern, ac mae mwy wedi dechrau dilyn ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU.

Mae'r dysgwyr y nodwyd bod ganddynt anawsterau cymdeithasol ac emosiynol wedi gwella eu medrau a'u presenoldeb. Mae rhai ohonynt wedi magu hyder i ymuno â darpariaeth y tu allan i oriau.

Mae rhan rhieni mewn gweithgareddau ysgol, cyfarfodydd a digwyddiadau wedi cynyddu hefyd.

Mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda iawn yn Ysgol Y Castell. Mae'r bwlch rhwng cyflawniad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael yn llai na chyfartaledd Cymru yng nghyfnod allweddol 2. Mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, mae'r holl ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Mae cyfraddau presenoldeb yn dda iawn ac wedi bod yn y chwarter uchaf o'r rhai ar gyfer ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae gan **Ysgol Gynradd Sant Woolos** yng Nghasnewydd 'Brosiect Dyheadau' er mwyn i ddysgwyr dan anfantais gael gwybod mwy am fyd gwaith.

# Astudiaeth achos 9

## Cyd-destun yr ysgol

**Mae Ysgol Gynradd Sant Woolos yn agos at ganol dinas Casnewydd mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n gwasanaethu poblogaeth amrywiol iawn, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY) i bum deg dau y cant o ddysgwyr ar hyn o bryd, ac mae tua 59% yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol, Asiaidd yn bennaf, yn cynnwys 35 o ieithoedd cartref gwahanol.**

**Yng nghyffiniau'r ysgol, mae hostel yr awdurdod lleol i'r digartref a dwy loches i fenywod. Mae canran sylweddol o boblogaeth yr ysgol yn symudol ac yn ymuno ar ôl y Cyfnod Sylfaen, am fod rhai teuluoedd yn ffoaduriaid a heb gartref parhaol. Mae gan ryw 34% o'r dysgwyr ar y gofrestr hawl i gael prydau ysgol am ddim.**

## Strategaeth

Arwyddair yr ysgol yw "Dathlu cyflawniad i bawb mewn amgylchedd gofalgar". Fodd bynnag, mae arweinwyr yr ysgol yn cydnabod mai cyfyngedig yw dyheadau llawer o'u dysgwyr, am eu bod yn dioddef yn sgil anfantais.

Dechreuodd yr ysgol y Prosiect Dyheadau ym Medi 2007. Nod y prosiect yw rhoi gwybodaeth am gyflogaeth i ddysgwyr y tu hwnt i ffiniau profiadau eu bywyd arferol. Mae'r prosiect yn rhoi cyflwyniad gwybodus i fyd gwaith ac i godi dyheadau dysgwyr trwy ymweliadau â'r ysgol gan oedolion sy'n gweithio mewn ystod o feysydd. Ble bynnag y bo modd, mae'r ysgol yn defnyddio profiadau'r rhai sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r ysgol. Mae'r ymweliadau'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth am y gweithle a bywyd gweithio yn gyffredinol; i ddatblygu eu medrau cyfathrebu; ac archwilio unrhyw feysydd diddordeb unigol hefyd.

Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r plant hynny nad yw eu rhieni efallai'n gweithio, neu nad oes ganddynt ryw lawer o wybodaeth am y llwybrau gyrfa sydd ar gael o bosibl. Mae'r ysgol yn dewis ymwelwyr o ystod eang o weithleoedd.

Mae Prosiect Dyheadau yn rhan o gwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol Blwyddyn 6. Un agwedd yn unig ar ymyrraeth a chymorth ar draws yr ysgol gyfan yw hon i gynorthwyo dysgwyr dan anfantais.

## Gweithredu

Mae ymwelwyr o'r gymuned leol yn dod i'r ysgol i siarad am eu swydd a'u llwybrau gyrfa. Maent yn cyfarfod gyda dysgwyr Blwyddyn 6 i gyflwyno eu hanes, a allai gynnwys trafodaeth am offer y maent wedi dod gyda nhw. Un o'r siaradwyr hyn oedd Rheolwr Prosiect adeilad newydd y brifysgol yng Nghasnewydd. Siaradodd â'r dysgwyr am iechyd a diogelwch, ei swydd a'i addysg. Gofynnodd y dysgwyr ystod o gwestiynau iddo, ac fe wnaeth hyn ehangu eu gwybodaeth am fyd gwaith.

Yn dilyn y cyflwyniadau, mae dysgwyr yn trafod eu syniadau ac yn cofnodi eu hymatebion yn eu dyddiaduron dysgu.

Agwedd arall ar y prosiect yw 'Diwrnod byd gwaith'. Trefnodd Cymdeithas Cartrefi Dinas Casnewydd ddiwrnod o weithgarwch i ddysgwyr Blwyddyn 6. Ymwelodd dysgwyr â'r brif swyddfa yng Nghasnewydd, ac fe gawsant gyflwyniad bras i'r cwmni gan y Rheolwr Gyfarwyddwr. Wedyn, cawsant eu rhannu yn un o chwe grŵp, a gymerodd ran mewn cyfarfod 'cyfweliad cyflym' yn para pum munud yr un gyda chwech o weithwyr gwahanol. Roedd rolau'r gweithiwr yn amrywio o 'blymer' i 'gyfrifydd' a 'derbynnydd', a siaradodd pob gweithiwr am ei swydd a'i rôl yn y cwmni.



## Arfarnu

**Caiff y prosiect ei arfarnu trwy:**

- assessment of the learners' questioning skills;
- learners' responses in their learning diary, to evaluate the success of each activity and give valuable evidence for the improvement in learners' skills; and
- learners' feedback through questionnaires.

## Deilliannau

Mae adborth gan ddysgwyr wedi amlygu newidiadau yn nyheadau gyrfa rhai dysgwyr. Mae hefyd yn dangos bod dealltwriaeth plant o fyd gwaith yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Mae perfformiad dysgwyr yn Ysgol Gynradd Sant Woolos wedi golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ym mhob un o'r dangosyddion allweddol am y pum mlynedd diwethaf. Yn 2011, llwyddodd 80% o'r dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

# 8 Gwrando ar ddysgwyr ac annog cyfranogiad

**Mae dysgwyr dan anfantais yn fwy tebygol o gael eu dadrithio â'u hysgol o oedran cynharach na dysgwyr eraill. Y rheswm am hyn yw eu bod yn aml yn gweld y cwricwlwm ysgol yn amherthnasol, maent yn llai tebygol o dderbyn diwylliant yr ysgol, ac nid yw eu cofnod presenoldeb cystal. Mae'r nodweddion hyn, ynghyd â diffyg dyhead a llai o debygolrwydd o gyflawni eu potensial, yn golygu bod dysgwyr dan anfantais yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o fywyd yr ysgol.**

**Mae ysgolion sy'n llwyddiannus mewn amgylchiadau heriol yn gweld bod datblygu cyfleoedd i ddysgwyr gael lleisio barn ynghylch sut a beth y maent yn ei ddysgu wedi gwella cyfranogiad, uchelgais a safonau dysgwyr yn sylweddol. Mae'r ysgolion hyn yn gwrando ar eu dysgwyr yn effeithiol. Yn benodol, maent:**

- yn casglu safbwyntiau dysgwyr am addysgu a dysgu mewn modd trefnus;
- yn rhoi cyfleoedd cynlluniedig a rheolaidd i bob dysgwr gael 'amser gwrando' un i un gydag oedolyn;
- yn rhoi rôl allweddol i ddysgwyr yn natblygiad yr ysgol; ac
- yn cynnwys dysgwyr yn uniongyrchol i wella safonau a lles trwy ddefnyddio dysgwyr fel mentoriaid, 'cyfeillion' a thiwtoriaid.

**Mae'r ysgolion effeithiol hyn yn defnyddio holiaduron i ddysgwyr yn rheolaidd i gael safbwyntiau dysgwyr ar addysgu, gwaith cartref, asesu, gosod targedau, ansawdd y cymorth gan staff ac ystod o brosesau ysgol. Mae ysgolion yn dadansoddi'r holiaduron hyn ac yn rhoi'r deilliannau yn ôl i ddysgwyr eu trafod ymhellach. Mae athrawon yn cymryd safbwyntiau dysgwyr o ddifrif ac yn eu defnyddio wrth gynllunio gwaith a gosod polisïau.**

**Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio dulliau eraill hefyd i gasglu gwybodaeth am safbwyntiau dysgwyr mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, maent yn defnyddio 'blychau awgrymiadau' er mwyn i ddysgwyr allu bwydo gwybodaeth yn ôl yn ddienw. Maent yn defnyddio 'waliau syniadau' hefyd i ddysgwyr ychwanegu atebion creadigol i faterion ysgol, a dyddiaduron dysgu lle mae dysgwyr yn cadw cofnod parhaus o'u meddyliau am eu dysgu. Ym mhob achos o adborth dysgwyr, mae ysgolion effeithiol yn sicrhau bod dysgwyr yn cydnabod y gweithredir yn unol â'u safbwyntiau.**

**Mae ysgolion effeithiol mewn ardaloedd difreintiedig yn gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn cael cyfrannu at ei brofiad ysgol, gan roi cyfleoedd iddynt gael eu clywed fel unigolion ac mewn grwpiau. Yn yr achosion gorau, nid yw ysgolion yn dibynnu'n gyfan gwbl ar eu cyngor ysgol fel mecanwaith ar gyfer llais y dysgwr. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn creu systemau i wneud yn siŵr bod safbwyntiau dysgwyr o bob grŵp, yn cynnwys y rhai sydd dan anfantais, yn cael eu clywed.**

**Mae'r mentrau hyn i ddatblygu cysylltiad dysgwyr a'r penderfyniadau a wnânt yn yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau, ymddygiad a phresenoldeb dysgwyr. Yn benodol, mae ysgolion wedi gweld, trwy roi mwy o bwyslais ar 'lais y dysgwr', bod llawer o ddysgwyr dan anfantais:**

- yn magu hunanhyder;
- yn fwy tebygol o roi eu hamser i gymryd rhan mewn dysgu y tu allan i oriau;
- yn fwy tebygol o gymryd cyfrifoldebau yn yr ysgol, fel dyletswyddau swyddog, neu fel cadeirydd grŵp gweithredu neu bwyllgor;
- yn meddu ar lefelau gwell o ddyfalbarhad; ac
- yn fwy tebygol o osod nodau heriol iddyn nhw eu hunain.

Astudiaeth achos 10

Mae **Ysgol Gyfun Cwrt Sart** wedi cyflwyno system mentora cyfoedion i ddatblygu medrau arwain dysgwyr a gwella cyflawniad.

## Cyd-destun yr ysgol

**Gweler astudiaeth achos 1 (Tudalen 5) i gael gwybodaeth gefndir am yr ysgol.**

## Strategaeth

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cysylltu lles dysgwyr ac amgylchedd ysgol diogel gyda deilliannau gwell i'r holl ddysgwyr. Cafodd y cynllun mentora cyfoedion ei hyrwyddo gan yr awdurdod lleol ar y cychwyn. Datblygodd yr ysgol y rhaglen hon ymhellach i ddatblygu medrau arwain dysgwyr a gwella cyflawniad. Yn y modd hwn, roedd yr ysgol yn rhoi neges glir bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gynhwysiant cymdeithasol. Rhoddwyd y cyfle hwn i bob un o ddysgwyr Blwyddyn 11 gymryd rhan a chyfrannu at fywyd eu hysgol gymunedol.

## Gweithredu

Cyflwynir y cynllun mentora cyfoedion gan athro'r Ganolfan Cymorth i Astudio (gweler astudiaeth achos 5) a'r cwnselwr yn yr ysgol.

Cafodd hyfforddiant staff ei hwyluso gan yr awdurdod lleol, wedi'i seilio ar waith y Sefydliad Mentora a Chyfeillio. Roedd y wybodaeth a'r arbenigedd yn galluogi staff i gyflwyno'r cynllun mentora cyfoedion yn yr ysgol.

**Mae'r broses yn cynnwys:**

- rhannu hyfforddiant staff ar draws yr ysgol gyfan;
- hyfforddiant i lywodraethwyr;
- llythyrau at rieni yn amlinellu'r cynllun;
- gwasanaethau ysgol gyfan i hyrwyddo a recriwtio aelodau;
- ffurflenni cais a chyfweliadau; a
- rhaglen hyfforddi mentoriaid.

Mae'r rhaglen yn cynnwys recriwtio a hyfforddi dysgwyr Blwyddyn 11. Mae staff yn goruchwylio mentoriaid yn rheolaidd, ac maent yn cynnal sesiynau i drafod eu cynnydd a'u pryderon, ac i fyfyrio ar eu harfer. Caiff mentoriaid eu neilltuo ar gyfer dysgwyr i'w mentora yn unol â phersonoliaeth a medrau unigol y mentor ac anghenion y sawl y mae'n ei fentora/mentora. Mae staff yn sicrhau bod gwybodaeth anffurfiol ar gyfer mentoriaid bob amser ar gael ar unrhyw adeg. Mae'r rhai sy'n cael eu mentora hefyd yn cael y cyfle i arfarnu'r rhaglen trwy drafodaethau a chofnodion cynnydd. Mae rhieni mentoriaid a'r rhai y maent yn eu mentora hefyd yn cefnogi'r rhaglen. Maent yn cyfrannu at ymgynghoriad mewn nosweithiau rhieni a thrwy grŵp cymorth i rieni.

Mae gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion uwchradd eraill yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer dda ac edrych ar ffyrdd o wella ac arfarnu'r rhaglen.



## Arfarnu

**Caiff y cynllun ei arfarnu yn y ffyrdd canlynol:**

- mae staff yn cyfarfod bob wythnos gyda mentoriaid i adolygu cynnydd;
- mae'r rhai sy'n cael eu mentora yn olrhain cynnydd yn erbyn eu targedau yn eu cofnodion cynnydd;
- mae mentoriaid a'r rhai sy'n cael eu mentora yn llenwi holiaduron adborth; ac
- mae rhieni, staff a myfyrwyr yn rhoi adborth llafar.

Mae aelodau o'r awdurdod lleol a chynrychiolwyr cenedlaethol o'r Sefydliad Mentora a Chyfeillio yn rhannu arfer dda a meysydd i'w datblygu ymhellach trwy gynadleddau. Gwahoddwyd y rhai sy'n cael eu mentora a mentoriaid i gyflwyno eu safbwyntiau mewn digwyddiad o'r fath, ac i drafod ac arfarnu eu profiadau o'r cynllun. Siaradodd y dysgwyr â chynulleidfa fawr, yn cynnwys dysgwyr o ysgolion eraill, uwch staff ysgolion, aelodau o'r awdurdod lleol a phwysigion lleol. Cafodd yr holl ddysgwyr a gymerodd ran yn y digwyddiad eu canmol am eu hymdrechion, llwyddiant y cynllun a lefel yr aeddfedrwydd yr oeddent wedi'i ddangos.

Mae'r ysgol yn awr yn bwriadu sefydlu cymhorthfa galw heibio lle gall dysgwyr hunangyfeirio at y cynllun.

Gwahoddwyd y mentoriaid i fynychu'r cyfarfod clwstwr nesaf i drafod eu syniadau a'u safbwyntiau gyda'r penaethiaid cynradd. Mae gan y rhai sy'n cael eu mentora safbwyntiau clir ar gyfer cyflwyno system well i gyfeillion ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 6.

## Deilliannau

**Dangosydd dadansoddiad o'r holiaduron fod:**

- hunanhyder yn well – dywedodd 100% o fentoriaid bod lefelau eu hunanhyder wedi gwella ar ddiwedd y cynllun;
- roedd 88% yn ystyried bod y rhaglen hyfforddi'n rhagorol neu'n dda iawn;
- dywedodd 85% o fentoriaid fod eu medrau datrys problemau wedi gwella o ganlyniad i fod yn rhan o'r cynllun;
- dywedodd 80% o fentoriaid fod eu medrau cyfathrebu wedi gwella;
- aeth sawl un o'r mentoriaid ymlaen i fod yn uwch swyddogion, yn cynnwys y prif fachgen a'r brif ferch; ac
- roedd 75% o'r rhai sy'n cael eu mentora yn teimlo bod ganddynt berthnasoedd gwell ymhlith eu cyfoedion.

**Mae deilliannau eraill yn cynnwys:**

- presenoldeb gwell ar gyfer y mentoreion a gafodd eu targedu;
- gostyngiad yn niferoedd y dysgwyr sy'n cael eu gwahardd o gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol;
- ymddygiad gwell a gostyngiad yn nifer yr achosion a ailadroddir gyda'r mentoreion (mewn meysydd pwnc penodol ac amser cinio); ac
- adborth gan staff pwnc a rhieni trwy ddyddlyfrau, trafodaethau anffurfiol mewn nosweithiau rhieni, sgyrsiau ffôn ac ymweliadau cartref, sydd i gyd yn rhoi adborth cadarnhaol ar y cynllun.

Mae **Ysgol Gyfun Cefn Hengoed** yn Abertawe wedi mynd ati'n effeithiol i ddatblygu dulliau o wrando ar ei dysgwyr.

# Astudiaeth achos 11

## Cyd-destun yr ysgol

**Gweler astudiaeth achos 6 (Tudalen 18) i gael gwybodaeth gefndir am yr ysgol.**

## Strategaeth

Rhoddodd yr ysgol flaenoriaeth i ddatblygu llais y dysgwr trwy gydol 2010-2011.

**Dyma oedd y nodau:**

- diweddaru a dilysu'r cyfraniad a wna dysgwyr at wneud penderfyniadau yn yr ysgol;
- sicrhau effaith go iawn i ddysgwyr yn yr ysgol wrth reoli newid;
- datblygu medrau gwneud penderfyniadau, trafod a chynllunio dysgwyr;
- datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr;
- galluogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion gweithgar ac yn ddysgwyr gydol oes; a
- sicrhau bod dysgwyr wrth wraidd eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod o strategaethau i ennyn diddordeb dysgwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau fel y gall dysgwyr ddylanwadu'n uniongyrchol ar addysgu a dysgu a datblygu'r cwricwlwm.

## Gweithredu

Mae'r ysgol yn ceisio safbwyntiau dysgwyr yn rheolaidd ar bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae wedi ffurfio nifer o grwpiau gweithredu i ddysgwyr i ddatblygu medrau arwain dysgwyr ac ennyn eu diddordeb yn llawnach yn eu dysgu eu hunain.

Mae'r 'Sgwad Diogelwch' yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi a thrafod materion cyfoes. Mae wedi helpu i gynllunio polisi gwrth-fwlio a strategaethau'r ysgol, ac mae wedi cyfrannu at ddylunio adeilad ysgol newydd.

Mae'r Tîm E-Ddiogelwch, y mae ei aelodau hefyd yn cynnwys staff addysgu a staff cysylltiol, ymgynghorydd sirol a llywodraethwr cyswllt, yn cyfarfod i ddatblygu polisi ac arferion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Y Tîm Gwyrdd yw llais y dysgwr o ran addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn yr ysgol, ac mae'n grŵp mawr a llwyddiannus o ddysgwyr. Mae'r grŵp yn weithgar yn y gymuned leol ac yn cymryd rhan mewn llawer o brosiectau amgylcheddol lleol. Mae'n cysylltu â grwpiau amgylcheddol lleol fel Gwirfoddolwyr Coetir Cilfái, sy'n cynnal cyfarfodydd yn yr ysgol erbyn hyn. Mae'r Tîm Gwyrdd yn arwain gwasanaeth ailgylchu ar gyfer yr ysgol gyfan.

Mae'r Tîm Gwyrdd yn cyfarfod gydag Eco Bwyllgor yr ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol i gydweithio ar weithgareddau yn y gymuned fel 'mentrau codi sbwriel'. Cyflawnodd yr ysgol gynradd y Faner Werdd yn Nhymor yr Hydref 2010 a chynghorodd y Tîm Gwyrdd ar ei gamau terfynol tuag at statws y Faner Werdd.

Mae'r ysgol yn datblygu grwpiau llais y dysgwr sy'n ennyn diddordeb mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut a beth y maent yn ei ddysgu. Mae capteiniaid chwaraeon bechgyn a merched y grwpiau blwyddyn yn lleisio barn y dysgwyr am addysg gorfforol. Mae grŵp y dyniaethau yn cyfarfod yn rheolaidd i lywio cynllun y cwricwlwm ac addysgu yn y maes hwn, ac mae'r 'Sgwad Sgiliau' yn rhoi llais i'r dysgwr ar gyfer llythrennedd a rhifedd.



Mae'r ysgol wedi ffurfio rhwydweithiau gydag ysgolion eraill ledled y rhanbarth i ddatblygu llais y dysgwr ar gyfer gwella ysgolion. Mae dysgwyr o wahanol ysgolion yn cyfarfod i drafod a dadlau am faterion lleol a chenedlaethol, i rannu arfer dda a datblygu medrau arwain.

Caiff pob dysgwr gyfle i gwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ym Mlwyddyn 9 a Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r cyrsiau hyn yn helpu i atgyfnerthu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain, a'i wella.

## Arfarnu

**Mae dysgwyr yn llenwi holiadur i ddysgwyr i adolygu eu profiad dysgu ac fe gaiff eu safbwyntiau eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd i lywio cynllunio datblygiad pwnc a chynllunio ysgol gyfan.**

## Deilliannau

Mae'r Tîm Gwyrdd yn adolygu amgylchedd yr ysgol yn rheolaidd ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at ailgylchu ac arbed ynni. Mae'r tîm yn llunio cylchlythyr tymhorol. Cyflawnodd yr ysgol statws y Faner Werdd yn 2011.

Mae cyfraniad y Sgwad Diogelwch at adeilad newydd yr ysgol wedi helpu i greu amgylchedd lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a lle na chaiff bwlio ei groesawu. Mae adborth i ddysgwyr yn cadarnhau bod gweithgarwch y Sgwad Diogelwch yn cyfrannu at ysgol fwy diogel.

Mae adborth gan ddysgwyr yn dangos bod llawer o ddysgwyr yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gwneud y newidiadau a awgrymir ganddynt. Mae'r gyfran hon gryn dipyn yn uwch nag ydyw mewn ysgolion uwchradd eraill ledled Cymru.

Gellir priodoli gwelliannau mewn safonau i nifer o ffactorau allweddol. Fodd bynnag, mae rhan dysgwyr yn eu dysgu eu hunain a'u cyfraniad at gynllunio wedi cael effaith sylweddol ar wella'r ysgol.

Yn 2011, y cyflawniad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 1 oedd yr uchaf yn ei theulu o ysgolion.

Yn 2011, roedd perfformiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4 yn gryf iawn yn yr holl ddangosyddion allweddol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yr ysgol dros gyfnod o dair blynedd wedi gwella'n gyson. Yn 2011, roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pwnc craidd, yn cynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyfunol, ymhell uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae wedi bod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

# 9 Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dysgwyr dan anfantais

Mae rhieni'r dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan yn addysg eu plant ac yn fwy tebygol o fod ag agwedd negyddol tuag at yr ysgol ac addysg.

Dangosodd ein hadroddiad ar gynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd[11] fod sefydlu cysylltiadau agosach rhwng y cartref a'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar les dysgwyr. Mae hyd yn oed ysgolion sy'n effeithiol yn gwella cyflawniad eu dysgwyr sydd dan anfantais yn gweld bod ymgysylltu â rhieni yn her enfawr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ysgolion effeithiol yn ymdrechu i ddod o hyd i ffyrdd gwell o feithrin partneriaethau gyda rhieni.

Mae ysgolion llwyddiannus yn defnyddio ystod o ddulliau i gyfathrebu gyda rhieni. Maent yn gwneud yn siŵr bod cylchlythyrau, gwybodaeth ar wefan yr ysgol, a thaflenni am fywyd a gwaith yr ysgol yn cael eu cynhyrchu mewn amrywiaeth o ffurfiau hygyrch. Maent yn defnyddio negeseuon testun a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i gysylltu â rhieni. Mae'r ysgolion sydd orau o ran ymgysylltu â rhieni hefyd yn monitro llwyddiant y strategaethau y maent yn eu defnyddio, er enghraifft trwy olrhain ymweliadau â gwefan yr ysgol a holi rhieni'n rheolaidd i gael eu barn.

Fodd bynnag, mae'r ysgolion llwyddiannus hyn yn gweld mai'r ffordd orau o ymgysylltu â'u rhieni yw cyfathrebu a gweithio gyda nhw wyneb yn wyneb. Mae'r ysgolion hyn yn gwneud mwy na dim ond cael polisi 'drws agored'. Er enghraifft, mewn ysgolion cynradd, mae uwch arweinwyr ac aelodau o staff yn mynd ati'n fwriadol i gyfarfod â rhieni ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Mae rhai ysgolion yn cyflogi aelod o staff yn benodol ar gyfer cysylltu â rhieni. Mae'r aelod hwn o staff yn cyfarch rhieni wrth giât yr ysgol bob bore ac yn eu hannog i drafod unrhyw faterion gyda staff addysgu. Mae'r gweithgarwch hwn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'r ysgol am ei strategaethau i ddatblygu partneriaethau gyda rhieni.

Yn Ysgol Y Graig yn Ynys Môn, mae gan yr uwch gynorthwyydd cynhwysiant swyddfa yn nerbynfa'r ysgol a gall fynd i'r afael â phryderon rhieni cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd yr ysgol a dangos ei fod/bod yno. Mae hyn yn golygu bod rhieni sydd efallai'n teimlo'n bryderus ynglŷn â mynd at yr ysgol yn cael eu gweld ar unwaith.

Mae ysgolion yn aml yn gweld bod rhieni'n barod i fynychu digwyddiadau ysgol fel cynyrchiadau neu ddigwyddiadau rhoi gwobrau, ond bydd llai o rieni'n mynychu sesiynau mwy ffurfiol i drafod dysgu a chynnydd. Mae rhai ysgolion wedi goresgyn y broblem hon trwy gynnal digwyddiadau sy'n cyfuno adloniant wedi'i ddarparu gan ddysgwyr gyda gwybodaeth i roi eitemau am sut i gefnogi cynnydd dysgwyr.

11 Arfer dda o ran cynnwys rhieni, Estyn, 2009

Mae **Ysgol Uwchradd Cathays** yng Nghaerdydd wedi creu cysylltiadau cryfach gyda rhieni a'r gymuned leol er mwyn sicrhau bod dysgwyr dan anfantais yn cael eu cynorthwyo'n dda.

# Astudiaeth achos 12

## Cyd-destun yr ysgol

**Ysgol cyfrwng Saesneg 11 i 18 ger canol Caerdydd yw Ysgol Uwchradd Cathays. Mae 896 o ddysgwyr ar y gofrestr, yn cynnwys 144 yn y chweched dosbarth.**

**Mae'r ysgol yn derbyn dysgwyr o ardal ddaearyddol eang, a daw tua 40% o ddysgwyr o'r tu allan i'r dalgylch. Maent yn cynrychioli'r ystod gallu llawn, ond mae cyrhaeddiad cyfran sylweddol o ddysgwyr islaw'r cyfartaledd pan fyddant yn dechrau. Mae gan dri deg wyth y cant o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim.**

**Mae gan yr ysgol y gyfran uchaf o blant ceiswyr lloches o oedran ysgol uwchradd yng Nghaerdydd, sef rhwng 7% a 10% o boblogaeth yr ysgol yn nodweddiadol. Mae lefel symudedd y grŵp hwn yn uchel iawn. Ar gyfartaledd, mae trosiant poblogaeth y dysgwyr rhwng 20% a 30% bob blwyddyn.**

**Mae dros 30 o ieithoedd yn cael eu siarad gan ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys Arabeg, Bengaleg, Tsieceg, Ffarseg, Pwnjabeg, Somalieg ac Wrdw. Nid yw'r Gymraeg yn famiaith i unrhyw un o'r dysgwyr na'r myfyrwyr. Saesneg yw mamiaith tua hanner ohonynt. Darperir cymorth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol ar gyfer 257 o ddysgwyr.**

## Strategaeth

Mae rhan o gynllunio strategol yr ysgol yn ymwneud â chreu cysylltiadau cryfach gyda rhieni a'r gymuned leol, er mwyn sicrhau bod dysgwyr dan anfantais yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio sylw ar gyfnod pontio dysgwyr o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 ac mae'n monitro cynnydd a lles dysgwyr yn ofalus.

## Gweithredu

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o lawer o asiantaethau a grwpiau cymunedol i helpu dysgwyr i ymgynefino a datblygu a chryfhau cysylltiadau cyfathrebu gyda'u rhieni.

### Dydd Sadwrn Pontio

Mae'r ysgol yn cynnal llawer o weithgareddau pontio, yn cynnwys 'Dydd Sadwrn Pontio', pan fydd yr ysgol yn cynnal ystod o weithgareddau ar gyfer dysgwyr a'u rhieni. Cynigir cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr sydd dan anfantais yng nghyfnod allweddol 2.

### Diwrnod Dod â Rhiant i'r Ysgol

Yn ystod Blwyddyn 7, gwahoddir y rhieni i dreulio bore yn gweithio ochr yn ochr â'u plant. Y llynedd, cymerodd 24 o rieni ran, ac eleni, mae'r ysgol yn gobeithio cynyddu'r nifer hon.

### Cyfarfodydd teuluol

Gwahoddir pob dysgwr ym Mlwyddyn 7 i'r ysgol ar gyfer 'Cyfweliad Teuluol' gydag aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Trafodir materion fel pontio, medrau sylfaenol, a chyfleoedd ychwanegol sydd ar gael. Caiff y canlyniadau o'r cyfarfodydd eu hadrodd yn ôl wrth benaethiaid adran a phenaethiaid blwyddyn, ac fe gânt eu hymgorffori mewn eitemau agenda ar gyfer cyfarfodydd arweinwyr yn aml. Yn ogystal, caiff cyfarfodydd teuluol eu trefnu i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 i drafod cynnydd, uchelgeisiau a dyheadau dysgwyr. Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfieithwyr yn bresennol mewn digwyddiadau o'r fath. Mae'r cyfieithwyr hefyd yn helpu'r staff i werthfawrogi a deall gwahaniaethau diwylliannol penodol a allai effeithio ar addysgu a dysgu.



### Defnyddio arbenigedd yn y gymuned

Mae cyfradd presenoldeb un grŵp o ddisgyblion ethnig lleiafrifol yn isel iawn ar hyn o bryd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r ysgol wedi manteisio ar gymorth a chefnogaeth unigolyn o'r un grŵp ethnig. Mae'n cynnig ei gymorth i weithredu fel person cyswllt rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio cynllun tebyg o'r blaen gyda grŵp ethnig arall, a llwyddodd hyn i wella'r cyfathrebu rhwng y rhieni a'r ysgol.

### Prosiect Fy Addysg: ymgysylltu â rhieni a datblygu llais y dysgwyr (wedi'i gefnogi gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd)

Nod y prosiect yw ymgysylltu â rhieni o wahanol gefndiroedd ethnig, y mae llawer ohonynt yn amharod i ymgysylltu â'r ysgol ynghylch materion addysgu a dysgu. Cynlluniodd y dysgwyr darn o gyfrwng rhyngweithiol i roi gwybod i rieni ac aelodau o'r teulu am addysg eu plant a sut i ddeall y system addysg yn well. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd DVD a gwefan. Cafodd y dysgwyr eu hyfforddi i ddefnyddio cyfryngau digidol ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd i gynllunio a chyfarwyddo'r gwaith. Bydd cam nesaf y prosiect yn golygu bod dysgwyr a'u rhieni yn gweithio gyda'i gilydd, er mwyn i rieni allu magu hyder ac ennill y medrau i gymryd rôl fwy rhagweithiol i gefnogi addysg eu plant.

## Arfarnu

Mae'r ysgol yn monitro ac yn dadansoddi cyfranogiad rhieni mewn digwyddiadau a nosweithiau rhieni. Caiff y wybodaeth hon ei monitro yn ôl grŵp ethnig ac yn ôl grŵp blwyddyn y dysgwyr.

Ar ôl dadansoddi'r arfarniad, mae'r ysgol yn ymestyn ei darpariaeth i wella'r cyfnod pontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 trwy gynnig cwrs tridiau yn ystod hanner tymor i ddysgwyr cyfnod allweddol 2 a'u rhieni. Bydd y sesiynau yn cynnwys gweithgareddau ar gael mynediad i lyfrgell Cathays, cyfleoedd ffitrwydd a chwaraeon, materion iechyd a gefnogir gan feddyg a deintydd lleol, bwyta'n iach, gyda'r bwriad o asesu anghenion ac ymgysylltu â rhieni a'u hannog i ymwneud â'r ysgol.

## Deilliannau

Mae llawer o rieni'n teimlo bod ganddynt fwy o hyder wrth siarad gydag athrawon a'u holi. Mae'r ysgol wedi cyflogi cynorthwywyr addysgu dwyieithog ychwanegol i roi cymorth a gweithredu fel cyswllt.

Mae ffocws yr ysgol ar ddysgwyr o grwpiau ethnig penodol a'u rhieni wedi cynyddu presenoldeb mewn nosweithiau rhieni ar gyfer y rhieni hynny o 50% i 86%.

Mae perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Mae **Ysgol Mount Stuart** yng Nghaerdydd wedi datblygu strategaethau effeithiol i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.

# Astudiaeth achos 13

## Cyd-destun yr ysgol

**Mae Ysgol Gynradd Mount Stuart yn gwasanaethu ardal Butetown yng Nghaerdydd gerllaw Bae Caerdydd. Mae tua 330 o ddysgwyr ar y gofrestr, yn cynnwys plant meithrin. Mae'r ysgol yn gymuned amrywiol gyda 96% o ddysgwyr ethnig lleiafrifol. Mae Saesneg yn iaith newydd i bedwar deg naw y cant o ddysgwyr SIY, ac mae gan 40% lefelau caffael iaith cynnar. Mae gan bedwar deg tri y cant o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim, a nodwyd bod gan 39% o ddysgwyr anghenion addysgol arbennig.**

## Strategaeth

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ei datganiad cenhadaeth, sef "Dysgu a Byw Gyda'n Gilydd" trwy feithrin partneriaethau cryfach gyda'i rhieni a'r gymuned leol. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, fel rhan o'i hymdrech i wella safonau mewn llythrennedd, mae'r ysgol wedi rhoi blaenoriaeth i gynyddu ymgysylltiad â rhieni.

**Mae strategaeth yr ysgol i adeiladu partneriaethau cryf gyda'i theuluoedd yn cynnwys dau brif nod, sef:**

- → galluogi rhieni i gynorthwyo eu plant gartref; a
- → rhoi cyfleoedd amrywiol i rieni ymgysylltu'n rhagweithiol mewn perthynas â dysgu eu plant yn yr ysgol.

Un o amcanion rheoli perfformiad y pennaeth yw "gwella gwybodaeth a dealltwriaeth rhieni o ddysgu a chyflawniadau eu dysgwyr trwy gyfathrebu clir". Mae hon yn flaenoriaeth i wella'r ysgol hefyd.

## Gweithredu

### Polisi drws agored ar waith

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn cynnal proffil amlwg gyda rhieni ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae hyn yn galluogi uwch arweinwyr i siarad gyda rhieni am eu barn a'u dyheadau ar gyfer ysgol. Mae'r pennaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon i ffurfio blaenoriaethau gwella'r ysgol, yn enwedig ym meysydd llythrennedd ac ymgysylltu â rhieni. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni trwy negeseuon e-bost a chylchlythyrau. Fel hyn, mae'r ysgol yn rhoi gwybod i rieni am y cynnydd a wneir mewn dysgu ac addysgu yn ogystal â materion sefydliadol.

### Boreau agored i arsylwi'r dysgu a'r addysgu

Gwahoddir pob un o'r rhieni i ymweld â'r ysgol bob tymor i arsylwi'r dysgu a'r addysgu. Mae rhieni'n cyfarfod â'r pennaeth i gael cyflwyniad byr, ac ar ôl hyn, maent yn rhydd i ymweld ag unrhyw ystafell ddosbarth. Mae hyn yn rhoi profiad uniongyrchol o'r gwahanol strategaethau dysgu ac addysgu sy'n cael eu rhoi ar waith gan athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae hefyd yn rhoi cipolwg da iddynt ar y dilyniant a brofir gan ddysgwyr wrth iddynt symud o un flwyddyn i'r nesaf. Mae boreau agored wedi canolbwyntio ar ddarllen, rhifedd, gwyddoniaeth a chyd-destunau dysgu.

### Dysgu Teuluol

Mae gan yr ysgol nifer o strategaethau i wella llythrennedd rhieni ac ymwybyddiaeth o lythrennedd, yn cynnwys dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), dosbarthiadau Llythrennedd Teuluol, 'Clwb Bookworm' ac Iaith a Chwarae. Mae staff yn fodlon bod yn hyblyg â'u hamserlenni a'u hystafelloedd dosbarth er mwyn gwneud lle i'r grwpiau hyn.



Cynigir y dosbarth Llythrennedd Teuluol i rieni dysgwyr Blwyddyn 2 yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf. Mae rhieni yn cyfarfod â'u plant unwaith yr wythnos ar gyfer sesiwn lythrennedd sy'n cyflwyno ac yn esbonio confensiynau darllen a strategaethau dysgu pwysig trwy destun a rennir. Mae staff yn dysgu rhieni sut i ddarllen a rhannu testunau gyda'u plant. Mae pob sesiwn yn dechrau gyda chyflwyniad ffocysedig wedi'i arwain gan yr athro ar sut y gall rhieni gynorthwyo dysgu eu plant gartref. Mae hyn yn cynnwys agweddau fel ffurfio llythrennau'n gywir, seiniau llythrennau a chyfleoedd i ddarllen yn y cartref a'r tu allan. Wedyn, mae rhieni'n cynorthwyo gwaith dilynol sydd wedi'i anelu at wella medrau ysgrifenedig eu plentyn. Fe wnaeth yr ysgol gyflogi athro o'r Gwasanaeth Cyflawniad i Leiafrifoedd Ethnig a Theithwyr, a gynorthwyodd dysgwyr ym Mlwyddyn 2 hefyd, i gyflwyno ac arwain y prosiect hwn. Fodd bynnag, mae llwyddiant y prosiect hwn hefyd wedi dibynnu ar gymorth pob aelod o staff trwy gyfathrebu'n uniongyrchol â rhieni, amserlenni hyblyg a defnydd creadigol o leoedd gwag yn yr ysgol.

Llyfrgell yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a rhieni yw Clwb 'Bookworm'. Nid yw pob rhiant yn gallu ymrwymo i sesiwn gyfan, felly trefnir sesiwn fyrrach ar ddiwedd diwrnod penodol i rieni ddewis llyfr o lyfrgell yr ysgol i'w rannu gyda'u plentyn gartref (mae hyn yn ychwanegol i lyfrau darllen gartref yr ysgol). Caiff cynorthwywyr addysgu eu rhyddhau yn ystod y Clwb 'Bookworm' i siarad am strategaethau a rhannu storïau gyda phlant y gall rhieni barhau â nhw gartref.

Bu'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol uwchradd y mae'n ei bwydo i sicrhau cyllid ychwanegol i'r dosbarth Llythrennedd Teuluol a Chlwb 'Bookworm' trwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

Mae rhieni dysgwyr yn y meithrin hefyd yn cael cyfle i ymweld â'r meithrin i ddysgu gyda'u plant trwy'r rhaglen Iaith a Chwarae.

Yn 2009, defnyddiodd yr ysgol gyllid Rhagori i brynu adnoddau ar gyfer cynllun newydd i ddarllen mewn grŵp dan arweiniad. Un o fanteision pwysig ac ychwanegol hyn oedd y ffaith fod yr adnoddau presennol ar gyfer darllen mewn grŵp dan arweiniad yn cael eu defnyddio fel cynllun darllen gartref. Roedd yr ysgol yn gallu ymateb yn uniongyrchol i geisiadau rhieni i blant fynd â llyfrau adref yn fwy rheolaidd.

## Gwasanaethau a dathliadau cynhwysol

Yn ddiweddar, ailgyflwynwyd gwasanaethau dosbarth yn yr ysgol i gynnig cyfleoedd rheolaidd i rieni ymgysylltu â'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn gwahodd rhieni i wasanaethau a digwyddiadau sy'n cydnabod gwyliau a ddethlir yn ei chymuned aml-ffydd.

## Gwirfoddolwyr sy'n rhieni

Mae nifer o rieni yn gwirfoddoli i gefnogi dysgu yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwrando ar ddarllenwyr ac yn cefnogi ystod o weithgareddau. Mae'r dirprwy bennaeth yn rheoli'r agwedd hon ac yn cefnogi ceisiadau rhieni am gyrsiau mynediad neu hyfforddiant cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol sy'n eu paratoi ar gyfer gweithio mewn ysgolion.

## Arfarnu

**Mae'r ysgol yn gofyn am farn rhieni yn rheolaidd. Gofynnir am adborth gan rieni mewn nosweithiau rhieni, a gofynnir am eu barn yn fwy ffurfiol hefyd trwy holiadur blynyddol. Defnyddir yr adborth hwn i lywio adroddiad hunanarfarnu'r ysgol a blaenoriaethau gwella'r ysgol.**

**Mae uwch arweinwyr yn ymweld â sesiynau llythrennedd teuluol i drafod agweddau at ddarllen a safbwyntiau dysgwyr am y prosiect. Mae hyn wedi darparu adborth defnyddiol ac wedi llywio penderfyniad yr ysgol i barhau â'r prosiect. Cofnodir presenoldeb rhieni er mwyn mesur eu hymrwymiad hefyd. Mae gan bob dysgwr lyfr prosiect unigol, sy'n darparu tystiolaeth dda o'r cynnydd a wnânt, yn enwedig mewn ysgrifennu a darllen a deall. Caiff hyn ei fonitro gan arweinydd y prosiect a'r athro dosbarth fel tystiolaeth bellach o gynnydd y plentyn.**

## Deilliannau

Yn sgil monitro safonau yn llyfrau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, nodwyd gwelliannau mewn cyflwyniad a safonau ysgrifennu ymhlith dysgwyr a oedd yn mynychu'r prosiect llythrennedd teuluol. O'r wyth dysgwr ym Mlwyddyn 2 a oedd yn mynychu, llwyddodd pump i gyflawni lefel 2 Saesneg, a llwyddodd un dysgwr i gyflawni lefel 3 mewn ysgrifennu. Gwnaeth pob dysgwr yn y grŵp gynnydd da yn eu darllen rhwng Ionawr a Gorffennaf. Dangosodd asesiadau darllen wedi'u meincnodi fod chwe dysgwr wedi gwella o leiaf 10 lefel band llyfrau (hynny yw, trwy 10 llyfr darllen a oedd yn gynyddol fwy heriol) a dau ddysgwr o leiaf 20 lefel band llyfrau. Roedd rhieni'n gadarnhaol iawn ynglŷn â'u rhan yn y prosiect.

Canfu adolygiad diweddaraf yr awdurdod lleol o'r ysgol fod bron pob un o'r dysgwyr yn ymroi yn llwyr, yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn mwynhau'r ysgol, yn gweithio'n galed ac yn dangos balchder yn eu gwaith.

Roedd yr adborth gan rieni yn ystod y noson ymgynghori flaenorol â rhieni yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys y sylwadau canlynol: "cyfathrebu a rhyngweithio gwych", "mae'r rhyngweithio rhwng athrawon a rhieni wedi cynyddu", "rydym yn cael gwybod am benderfyniadau a newyddion", ac "mae'n dda gweld bod rhieni'n cael eu cynnwys yn gynyddol yng ngweithgareddau'r ysgol".

Roedd yr arolygon rhieni diweddaraf (Ionawr 2012) yn gadarnhaol iawn. Mae pob un o'r rhieni'n credu bod eu plant yn hoffi'r ysgol a bod yr addysgu'n dda. Mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo eu bod yn cael gwybod yn dda am gynnydd eu plentyn, ac maent yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion am bum mlynedd. Mae dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf o 62% yn 2008 i 91% yn 2011.

# 10 Datblygu arbenigedd staff i fodloni anghenion dysgwyr dan anfantais

**Mae llawer o benaethiaid yn nodi bod diffyg ymrwymiad staff i wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn rhwystr allweddol rhag goresgyn tlodi ac anfantais. Mae'r penaethiaid hyn wedi canfod bod angen hyfforddi a datblygu staff i fynd i'r afael â'r broblem hon. Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn buddsoddi'n sylweddol i ddatblygu medrau arweinwyr, athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr i wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Mae'r ysgolion hyn yn deall anghenion penodol eu dysgwyr yn dda, ac maent yn nodi cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n bodloni anghenion penodol dysgwyr yn eu hysgolion.**

**O ran addysgu, ffocws ar wella gwahaniaethu sydd wedi cael yr effaith fwyaf mewn ysgolion sy'n effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae ysgolion llwyddiannus yn defnyddio eu systemau olrhain data i nodi anghenion penodol eu dysgwyr sydd dan anfantais a sicrhau bod pob un o'r staff yn gallu cael gwybodaeth am ddysgwyr unigol. Mewn llawer o ysgolion llwyddiannus, mae athrawon yn ail-archwilio dulliau addysgu'n rheolaidd, fel cynllunio gwersi, i fodloni anghenion eu dysgwyr sydd dan anfantais.**

**Mae diwylliant cryf o rannu arfer dda mewn llawer o'r ysgolion llwyddiannus, yn yr ysgol a'r tu allan. Mae'r ysgolion hyn yn cynnig digonedd o gyfleoedd i athrawon arsylwi ei gilydd a rhannu dulliau o gynllunio ar draws yr ysgol. Maent wedi treulio amser yn datblygu dulliau ysgol gyfan mewn meysydd fel dulliau o addysgu medrau llythrennedd, hyrwyddo lles emosiynol a gwella cyflawniad bechgyn. Maent wedi nodi cyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff hefyd i ddatblygu medrau arbenigol, er enghraifft mewn therapi chwarae neu reoli dicter.**

**Mae bron pob un o'r ysgolion llwyddiannus yn defnyddio prosesau rheoli perfformiad i wella safonau a lles eu dysgwyr sydd dan anfantais. Yn yr ysgolion hyn, mae gan bob un o'r staff dargedau gwella penodol a mesuradwy sy'n gysylltiedig â tharged yr ysgol i wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r staff yn gyfrifol am wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais ac yn helpu'r ysgolion hyn i arfarnu eu cynnydd.**

**Mae llawer o ysgolion effeithiol yn nodi aelodau unigol o staff i arwain mentrau penodol i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mae'r dull hwn wedi bod o fudd i'r ysgolion hyn trwy:**

- gynyddu arbenigedd am wella cyflawniad dysgwyr dan anfantais yn yr ysgol;
- rhannu gwybodaeth am y strategaethau mwyaf effeithiol o ddelio ag anghenion unigolion penodol neu grwpiau o ddysgwyr; a
- gwella cyfathrebu ar draws yr ysgol.

**Mae arweinwyr ysgolion effeithiol hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd staff cymorth yn cael eu hyfforddi a'u defnyddio'n dda. Mewn llawer o ysgolion llwyddiannus, mae staff cymorth yn aml yn gymwys iawn ac yn arwain mentrau'r ysgol sydd o fudd i ddysgwyr dan anfantais mewn meysydd allweddol, fel medrau cyfathrebu arbenigol neu agweddau ar gymorth emosiynol ac ymddygiadol.**

**Mae bron pob un o'r ysgolion llwyddiannus wedi nodi aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth i gymryd cyfrifoldeb am berfformiad yr holl ddysgwyr sydd dan anfantais, beth bynnag fo'u hanghenion a'u galluoedd. Maent yn cydlynu dulliau'r ysgol o fynd i'r afael â thlodi ac anfantais trwy ddod â'r holl strategaethau amrywiol at ei gilydd mewn ffordd gydlynus a chyson. Yn ychwanegol, maent yn cynnal arfarniadau trylwyr o b'un a yw'r strategaethau'n cael yr effaith a ddymunir.**

**66 Mae rhai ysgolion yn nodi bod codi morâl staff yn agwedd hanfodol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais. Mewn rhai achosion, mae ymddygiad dysgwyr dan anfantais yn heriol, ac mae angen dull cadarn a chadarnhaol ar gyfer hyn. Hyd yn oed mewn ysgolion sydd ag ystod eang o strategaethau cymorth i ddysgwyr dan anfantais, mae disgwyliadau athrawon o ddysgwyr yn aml yn isel. Mae arweinwyr effeithiol yn goresgyn y rhwystr hwn trwy gynnal ymdrech barhaus i godi disgwyliadau a thrwy ysgogi athrawon i gredu y gallant wneud gwahaniaeth. I wneud hyn, maent yn defnyddio dulliau fel:**

- galluogi athro i fod yn arbenigwr mewn maes penodol, fel cyswllt teuluol neu olrhain data, trwy hyfforddiant staff;
- sefydlu grwpiau 'cymorth cymheiriaid', lle mae athrawon yn arsylwi ei gilydd yn addysgu ac yn cynnig cymorth a chefnogaeth;
- trefnu addysgu tîm; a
- chynllunio 'diwrnodau i ffwrdd' lle mae pob un o'r staff yn cydweithio ar faterion penodol ac yn rhannu dulliau.

# Atodiad

## Sail y dystiolaeth

**Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar dystiolaeth o ymweliadau ag ysgolion, craffu ar ddata ac adroddiadau arolygu.**

**Roedd y sampl o 15 ysgol yn cynnwys ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac ysgolion mewn ardaloedd gwledig a threfol. Roedd y sampl yn cynnwys pump o ysgolion uwchradd a 10 ysgol gynradd. Mae o leiaf 20% o'r dysgwyr o'r holl ysgolion yn yr arolwg yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd â llawer o amddifadedd economaidd gymdeithasol. Dewiswyd yr ysgolion ar gyfer yr arolwg trwy ddadansoddi data perfformiad yr ysgol a chraffu ar dystiolaeth arolygu.**

## Yr ysgolion

**Cymerodd yr ysgolion canlynol ran yn yr arolwg:**


- Ysgol Bryn Elian, Conwy;
- Ysgol Gyfun Cefn Hengoed, Abertawe;
- Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart, Castell-nedd Port Talbot;
- Ysgol Gyfun Sandfields, Castell-nedd Port Talbot;
- Ysgol Gynradd Llwynypia, Rhondda Cynon Taf;
- Ysgol Gynradd Milton, Casnewydd;
- Ysgol Gynradd Mount Stuart, Caerdydd;
- Ysgol Gynradd Nant Y Parc, Caerffili;
- Ysgol Gynradd Sant Woolos, Casnewydd,
- Ysgol Gynradd Tirdeunaw, Abertawe;
- Ysgol Gynradd Trewiliam, Rhondda Cynon Taf;
- Ysgol Melyd, Sir Ddinbych;
- Ysgol Uwchradd Cathays, Caerdydd;
- Ysgol y Castell, Sir Gaerfyrddin; ac
- Ysgol y Graig, Ynys Môn.

Data

Yn 2011, cyhoeddwyd ystadegau[12] gan Lywodraeth Cymru, sy'n dangos bod canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Mae cyfran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn rhoi syniad defnyddiol o amgylchiadau economaidd gymdeithasol[13].

Mae'r cyswllt rhwng anfantais a thangyflawni addysgol yn parhau i fod yn gryf. Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr o deuluoedd tlotach yn cyflawni cystal â'u cyfoedion.

Canran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim





Mae data Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011 yn dangos nad yw perfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim cystal â'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gryn dipyn yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r bwlch rhwng y dysgwyr hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion mwy breintiedig yn cynyddu gyda phob cyfnod allweddol olynol. Er 2009, yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3, bu ychydig o ostyngiad yn y bwlch mewn canrannau rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth hwn wedi cynyddu o ddau bwynt canran er 2009.

12 StatsCymru 2011

13 Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu rhieni neu'u gofalwyr yn derbyn budd-daliadau penodol, ac yn gwneud cais i hawlio prydau ysgol am ddim trwy eu hawdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'n fesur amherffaith o dlodi ac anfantais am nad yw pob teulu'n hawlio'r budd-daliadau neu'r prydau ysgol y mae ganddynt hawl i'w cael.


**Mae'r data isod yn dangos canrannau cymharol sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael.**

Bwlch yng nghanrannau'r disgyblion PYDd a'r rhai nad ydynt yn cael PYDd sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol yn 2011





**Mae'r bwlch o ran pwyntiau canran yn cynyddu gyda phob cyfnod allweddol olynol. Mae'r siart isod yn dangos bod y bwlch mewn canrannau yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3 wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth o ran pwyntiau canran o ran y rhai sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd rhwng y rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael wedi cynyddu o 31% yn 2009 i 33% yn 2011.**

Bwlch yng nghanrannau'r disgyblion PYDd a'r rhai nad ydynt yn cael PYDd sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd rhwng 2009 a 2011




Mae'r siart isod yn dangos y modd y mae cyflawniad yr holl ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pwnc craidd yng Nghymru wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r bwlch yn y canrannau sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd rhwng y rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael wedi lleihau rhywfaint, ond mae'n parhau i fod yn gyson eang.

Canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2, yn ôl cymhwyster i gael PYDd





Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr holl ddysgwyr yn nhrothwy lefel 2 wedi gwella ar yr un gyfradd. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y rhai sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael wedi parhau'n gyson dros y pum mlynedd, sef 33 pwynt canran.

Canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, yn ôl cymhwyster i gael PYDd



**Yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch yn y canrannau sy'n cyflawni'r trothwy hwn rhwng y dysgwyr hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael wedi cynyddu o bedwar pwynt canran, o 30 pwynt canran yn 2007 i 34 pwynt canran yn 2011.**

Canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg, yn ôl cymhwyster i gael PYDd



# Cyfeiriadau

Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn 2011

Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2010

Arfer dda o ran cynnwys rhieni, Estyn, 2009

Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed, Estyn, 2008

Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed, Estyn, 2009

Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion, Estyn, 2008

Brwydro yn erbyn tlodi ymhlith plant yng Nghymru: a oes strategaethau addysg effeithiol ar waith? Sefydliad Joseph Rowntree, 2007

The impact of poverty on young children's experience of school, Sefydliad Joseph Rowntree, 2007

Poorer children's educational attainment: how important are attitudes and behaviour? Sefydliad Joseph Rowntree, 2010

Monitro Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru, Sefydliad Joseph Rowntree, 2010

The influence of parents, places and poverty on educational attitudes and aspirations 2011

Can changing aspirations and attitudes impact on educational attainment? Sefydliad Joseph Rowntree, 2012

The role of aspirations, attitudes and behaviour in closing the educational attainment gap, Sefydliad Joseph Rowntree, 2012.

Strategaeth Tlodi Plant Cymru: dogfen ymgynghori. Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

Monitor Lles, Llywodraeth Cymru, 2011

# Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Sarah Lewis AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith / tîm yr arolwg |
| Michael Munting AEM | Tîm yr arolwg |
| Rosemary Lait AEM | Tîm yr arolwg |
| Stella Gruffydd AY | Tîm yr arolwg |